# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 29AIN TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 21/11/18)

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

### AELODAETH (19)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Paul John Rowlinson
Sedd Wag
Aled Wyn Jones
Huw Gruffydd Wyn Jones
Cemlyn Rees Williams
Charles Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Gethin Glyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell
Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

## Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018, fel rhai cywir.

**5. TWYLL A LLYGREDD: EXPRESS MOTORS** 10 - 12

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**6. CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** 13 - 31

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**7. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** 32 - 39

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** 40 - 47

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 48 - 57

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**10. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 17/9/18 - 16/11/18** 58 - 78

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**11. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19** 79 - 84

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2018/19.

**12. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** 85 - 92

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 27/9/18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Wyn Jones, Elin Walker Jones, Sion W. Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Angela Russell, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer Eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 6 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw G. Wyn Jones a Paul Rowlinson.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir.

**3. CYFRIFON TERFYNOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiad gan Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 28 Mehefin o'r Pwyllgor.

Tynnodd sylw at yr hyn a adnabuwyd gan Deloitte fel camddatganiad dosbarthiad o £5.640m o fewn y reserfau a glustnodwyd, ar gyfer taliad i Gronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurodd bod y taliad ar gyfer elfen sefydlog o gyfraniadau'r Cyngor fel cyflogwr am y cyfnod o 2017/18 i 2019/20. Nododd nad oedd wedi ei gywiro gan mai effeithio ar ddosbarthiad o fewn y reserfau a glustnodwyd yn unig ydoedd, nid oedd yn cael effaith ar gyfanswm y reserfau a glustnodwyd, ac yn y tymor canol gellid dadlau fod trefn Cyngor Gwynedd yn fwy tryloyw.

Yn unol â'r drefn Archwilio Flynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte.

Adroddwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2017/18.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Fel y nodwyd gan y Pennaeth Cyllid, bod un camddatganiad heb ei gywiro ond eu bod yn fodlon nad oedd yn cael ei gywiro;

- Bod un camddatganiad a gywirwyd i'w boddhad;
- Nid oedd unrhyw faterion oedd angen sylw wedi eu hamlygu gan y tîm archwilio yng nghyswllt y risgiau sylweddol a brofwyd;
- Cymeradwyo'r tîm cyfrifo am ansawdd y cyfrifon.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei ddiolch am yr adroddiad archwiliad a gyflwynwyd gan Deloitte, a'u cydweithrediad arferol drwy'r archwiliad.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd 2017/18 (ôl-archwiliad);**
**(ii) derbyn adroddiad archwiliad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru;**
**(iii) awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon y Cyngor a'i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

**4. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2017/18 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid datganiadau ariannol statudol diwygiedig y Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiad gan Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 19 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

Ymddiheurodd bod y dogfennau ar gyfer yr eitem hon wedi eu hanfon yn hwyr i'r aelodau. Nododd bod copi diwygiedig o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno gyda man newidiadau yn dilyn archwiliad Deloitte, nid oedd y newidiadau yn gwneud gwahaniaeth i'r prif ddatganiadau. Nododd ei ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith a'u cyflawniad yn wyneb straen sylweddol gydag absenoldebau staff.

Cyflwynodd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte yr adroddiad archwiliad ISA 260 gan ymddiheuro bod y ddogfen wedi ei anfon at yr aelodau yn hwyr. Nododd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2017/18.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod rhai camddatganiadau yn y cyfrifon wedi eu cywiro i'w boddhad;
- Nid oedd unrhyw faterion oedd angen sylw wedi eu hamlygu gan y tîm archwilio yng nghyswllt y risgiau sylweddol a brofwyd heblaw am welliannau rheolaeth fel y nodir yn arferol.

Nododd aelod ei ddiolch i'r tîm cyfrifo am eu gwaith a'i fod yn braf derbyn cadarnhad gan Deloitte bod y cyfrifon yn lân. Ategodd y Cadeirydd y sylw gan longyfarch y timau cyfrifo ar safon y cyfrifon.

Datganodd y Pennaeth Cyllid ei werthfawrogiad o waith y timau cyfrifo.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed risg i'r Cyngor o ran benthyca i gynghorau eraill, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn derbyn arweiniad gan gwmni Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, a pe byddai risg credyd byddai rhybudd risg credyd yn cael ei roi. Eglurodd nad oedd benthyca i gynghorau eraill yn risg uchel, gyda'r sefyllfa yn well na benthyca i gwmni preifat, oherwydd bod cynghorau yn gyrff gyda sicrwydd o incwm oherwydd y grym i godi treth.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2017/18 (ôl-archwiliad);**

**(ii) derbyn adroddiad archwiliad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru;**
**(iii) awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

**5. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/4/18 – 14/9/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 14 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau. Atgoffwyd yr aelodau yn unol â'r hyn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf 2018, fe ddarperir sgôr risgiau a lefel sicrwydd ar gyfer pob archwiliad. Nodwyd y derbyniwyd adborth cadarnhaol ar y drefn newydd gan aelodau a swyddogion.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y prif faterion canlynol –

**Trefniadau Diogelu – Trais yn y Cartref**

Mewn ymateb i sylw gan aelod o ran pryd byddai'r rheolaethau mewn lle, nododd y Rheolwr Archwilio bod rheolaethau mewn lle ond bod angen adeiladu arnynt. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod cynllun gweithredu mewn lle i ymateb i'r gofyn deddfwriaethol bod holl staff y Cyngor wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Nododd aelod bod cyfrifoldeb ar reolwyr i sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant. Mewn ymateb i sylw gan yr aelod o ran y rhesymau a roddir pan ei fod yn anoddach i weithwyr maes gwblhau'r hyfforddiant, nododd y Rheolwr Archwilio bod staff swyddfa efo mynediad rhwydd i'r modiwl hyfforddiant felly roedd yn haws iddynt gwblhau'r modiwl o gymharu â gweithwyr maes.

Awgrymodd aelod y dylai bod modd i weithwyr maes gael mynediad i'r hyfforddiant o gartref. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod Modiwl Datblygu Staff yn parhau i gael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac fe fyddai yn y pendraw yn galluogi holl staff i gael mynediad i'r modiwl hyfforddiant. Atgoffodd yr aelodau y cynhelir gwaith dilyniant ar yr archwiliad ac fe adroddir ar y canlyniadau.

**Canolfan Hamdden Arfon**

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod pob aelod o staff yn gyfrifol am gwblhau gwiriadau stoc, awgrymodd y dylai bod aelod penodol o staff neu hyd yn oed y rheolwr yn cwblhau'r gwiriadau. Mewn ymateb i'r sylw, eglurodd y Rheolwr Archwilio bod staff yn gweithio ar drefn rota felly nid oedd yn bosib i aelod penodol o staff gwblhau'r gwiriadau. Cadarnhaodd bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cynnal gwiriadau stoc.

**Casglu Incwm – Morwrol a Pharciau Gwledig**

Tynnodd aelod sylw bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn nodi ei fod yn ffyddiog bod y ffigyrau a ddarparwyd gan gwmni 'Adra', a oedd yn casglu arian tâl mynediad i Barc Glynllifon ar ran y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig, yn gywir er nad oedd gwiriadau o niferoedd ymwelwyr na'r arian a gesglir. Nododd yr aelod y dylid derbyn tystiolaeth i gefnogi barn y swyddog.

Nododd y Pennaeth Cyllid yn yr achos yma y byddai'r gost o gael swyddog yn gwirio'r incwm a gesglir o ran tâl mynediad i'r parc yn llawer uwch nag unrhyw incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei gasglu.

Nododd aelod yr angen i dderbyn mwy o wybodaeth yng nghyswllt y mater gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliwr

wedi edrych ar anfonebau chwarterol gan y cwmni a oedd yn nodi faint o arian a drosglwyddir i'r Cyngor a'i bod yn gyfforddus efo'r sefyllfa. Pwysleisiodd nad oedd yr incwm a gesglir gan y cwmni ar ran y Cyngor yn sylweddol.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod yr archwiliwr yn ystod yr archwiliad wedi edrych ar y risg i'r Cyngor gyda risg yng nghyswllt incwm yn fater sylfaenol a fyddai wedi derbyn sylw.

Nododd aelod bod rhaid cael balans o ran costau staff i wirio'r incwm a lefel yr incwm a gesglir. Roedd rhaid byw efo'r risg wrth wneud penderfyniad.

Nododd aelod ei fod yn derbyn y risg ond efallai byddai wedi bod o gymorth i gael ffigwr i gymharu.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio y gellir gwneud archwiliad sydyn o ran yr anfonebau a lefel incwm gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**Plas y Don**

Nododd aelod bod yr un themâu yn amlygu eu hunain yn gyson mewn archwiliadau ar Gartrefi Preswyl. Ychwanegodd aelod bod y Gweithgor Gwella Rheolaethau, yn ei gyfarfod ar 23 Hydref 2017, wedi trafod crynodeb o'r themâu a amlygwyd mewn archwiliadau ar Gartrefi Preswyl efo'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol.

Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod gwelliant wedi bod yn sefyllfaoedd Cartrefi Preswyl. Atgoffodd yr aelodau bod y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi egluro yng nghyfarfod y gweithgor bod materion staffio yn ffactor gyda phroblemau recriwtio staff yn enwedig yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.

Nododd aelod ei fod yn croesawu'r gwelliant yn sefyllfaoedd Cartrefi Preswyl. Ychwanegodd os oedd tueddiadau bod angen edrych ar y darlun ehangach a'i fod yn fater a oedd angen sylw gan yr Uwch Reolwyr yn hytrach na Rheolwyr y cartrefi.

Nododd aelod, oherwydd bod yr un materion yn codi, y dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried edrych ymhellach ar y themâu a oedd yn cael eu hamlygu mewn archwiliadau ar Gartrefi Preswyl.

**Plas Hedd**

Nododd aelod ei fod yn allweddol bod staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu 'Cam-drin Domestig' o ystyried eu man gwaith. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio mai un modiwl hyfforddiant oedd dan sylw a'i fod yn gyfran fach o ran gwaith a phrofion ynghlwm â'r hyn a gyflawnir gan staff cartrefi preswyl.

Nododd aelod y dylai bod fframwaith hyfforddiant efo amserlen benodol mewn lle. Ychwanegodd ei fod yn cydnabod bod staff yn y cartrefi preswyl yn hynod brysur a'i fod yn anodd rhoi amser i hyfforddiant. Mewn ymateb, tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw bod cam gweithredu cytunedig i 'Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu 'Cam-drin Domestig' gydag amserlen mewn lle.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt y risg i'r Cyngor o ganlyniad i ddiffyg mewn hyfforddiant, pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio mai un modiwl hyfforddiant y cyfeirir ato yn yr achos yma a bod ystod eang o hyfforddiant, megis diogelu a symud a thrin pobl, i'w cwblhau gan staff.

Cyfeiriodd aelod at fwriad y Cyngor i sefydlu llwybr gyrfa maes gofal, gan nodi nad oedd wedi ei wireddu hyd yn hyn. Nododd y byddai llwybr gyrfa maes gofal yn ysgogi unigolion i weithio yn y maes ac fe ddylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried y mater.

**Cefn Rodyn**

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed tymheredd yr oergell feddyginiaeth, eglurodd y Rheolwr Archwilio bod tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi yn ddyddiol.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd at 14 Medi 2018 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**

**(ii) bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cwblhau archwiliad sydyn o ran yr anfonebau a'r lefel incwm yng nghyswllt tâl mynediad i Barc Glynllifon gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf;**

**(iii) gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried:**

- **edrych ymhellach ar y themâu oedd yn cael eu hamlygu mewn archwiliadau ar Gartrefi Preswyl;**
- **edrych ar y sefyllfa o ran sefydlu llwybr gyrfa maes gofal er mwyn ysgogi unigolion i weithio yn y maes.**

**6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2018/19.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd at 14 Medi 2018 wedi cwblhau 25.45% o'r cynllun, gyda 14 o'r 55 archwiliad yng nghynllun 2018/19 wedi eu rhyddhau yn derfynol. Eglurwyd bod yr archwilwyr yn ystod chwarter 1 a chwarter 2 wedi ymgymryd ag archwiliadau ar gyfer rhai Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn ogystal. Nodwyd gwerthfawrogiad o waith y tîm. Tynnwyd sylw at yr addasiadau i'r Cynllun.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio bod capasiti llawn yn y tîm gyda phenodiadau i 2 swydd dros dro ers mis Gorffennaf yn adnodd ychwanegol tra bod 3 swyddog yn cwblhau hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2018/19.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.30am

________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL | **TWYLL A LLYGREDD: EXPRESS MOTORS** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **I GRYNHOI SUT DIGWYDDODD Y TWYLL A’R CAMAU A GYMERWYD I YMATEB** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, A HOLI SWYDDOGION Y CYNGOR AM Y TREFNIADAU O FEWN Y GWASANAETH TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS, A’R CAMAU DILYNOL A GYMERWYD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar 2 Hydref 2018, cafwyd pedwar o ddiffynyddion yn euog yn Llys y Goron Caernarfon o gyhuddiadau o dwyll yn ymwneud â hawliadau am gymorthdaliadau gan Express Motors i redeg y cynllun tocynnau teithio rhad yng Ngwynedd. Roedd pumed diffynnydd wedi pledio’n euog mewn gwrandawiad cynharach.

1.2 Ar 31 Hydref 2018, cafodd yr holl ddiffynyddion eu dedfrydu yn Llys y Goron yr Wyddgrug i'r carchar, am gyfnodau o rhwng 12 mis a saith mlynedd a hanner.

1.3 Perchennog Express Motors, ei dri mab a gyrrwr i’r cwmni oedd y diffynyddion.

1.4 Gan fod y mater yn destun achos llys, nid oedd modd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu drafod y mater mewn pwyllgor agored tan yn awr.

## 2. YMCHWILIAD ARCHWILIO MEWNOL

<u>Cefndir</u>

2.1 Cyfeiriwyd y mater hwn i Archwilio Mewnol gan yr Adran Rheoleiddio yn 2014, a ddywedodd fod ganddynt bryderon a’u bod wedi derbyn cwynion gan gwsmeriaid fod y cardiau teithio bws yn cael eu taro fwy nag unwaith (wrth gamu ar y bws ac fel yr oeddent gadael) ar gyfer teithiau wnaed gyda Express Motors. Gofynnwyd i Archwilio Mewnol ymchwilio i'r honiad hwn, gan fod hyn yn weithgaredd twyllodrus o bosibl gan y cwmni bws er mwyn chwyddo'r ffigurau tocynnau teithio rhatach a chwyddo trwy dwyll eu hawliadau misol gan yr Awdurdod.

<u>Gweithdrefn Hawlio</u>

2.2 Caiff y cynllun tocynnau teithio rhatach ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac fe’i weinyddir gan y 22 awdurdod lleol; fe'i lansiwyd yng Nghymru ar 1 Ebrill 2002. Mae'r cynllun yn rhoi'r hawl i fenywod a dynion 60 oed a throsodd a phobl â rhai anableddau i gael cerdyn teithio bws sy'n eu galluogi i deithio am ddim yng Ngwynedd ac yn unrhyw le yng Nghymru. Gellir defnyddio’r cardiau teithio sawl gwaith a nid oes cyfyngiadau arnynt, ond rhaid i deithwyr ddangos y cerdyn bob tro y maent yn teithio.

2.3 Yna, mae'r cynllun yn caniatáu gweithredwyr bysiau i adennill yr arian o'r pwrs cyhoeddus, yn fisol, ar gyfer pob taith a wneir gyda cherdyn teithio dilys. Cyfrifir y taliad hwn drwy ddefnyddio tair elfen:

- Y nifer o deithiau a wneir o fewn y mis ar lwybrau a weithredir gan y cwmni hwnnw gan ddefnyddio tocyn teithio dilys
- Pris cyfartalog taith sengl taith gan y gweithredwr (mae’n seiliedig ar gost cyfartalog ym Medi 2009)

- Lluosydd a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru (sy'n gyson ar gyfer pob awdurdod lleol a gweithredwr bysiau yng Nghymru – mae hwn yn amrywio pob blwyddyn, yn seiliedig ar y gyllideb sydd ar gael)

2.4 Felly, cyfrifir y taliad misol i bob cwmni, fel a ganlyn:

**Taliad = Nifer y teithiau consesiynol x pris taith sengl cyfartalog Medi 09 x lluosydd LlC**

2.5 Pob mis, mae'n gyfrifoldeb y cwmnïau i adael i'r Cyngor wybod sawl gwaith y defnyddiwyd cardiau teithio rhatach ar lwybrau o fewn Gwynedd, gyda'r Cyngor yn talu cwmnïau yn seiliedig ar y data a dderbynnir bob mis. Ail-hawlia'r Cyngor yr arian sydd wedi ei dalu i'r cwmnïau gan Lywodraeth Cymru drwy hawliadau chwarterol.

<u>System Wayfarer</u>

2.6 Mae'r system Wayfarer gan gwmni Parkeon yn system sy'n cofnodi data tocynnau teithio rhatach ar gyfer gweithredwyr bysiau.

2.7 Hysbyswyd Archwilio Mewnol gan yr Adran Rheoleiddio fod y rhan fwyaf o weithredwyr bysiau yn uwch-lwytho eu data o'r system i Gyngor Sir y Fflint, sydd wedyn yn cynhyrchu adroddiadau angenrheidiol. Yn gynnar yn 2014, dim ond tri o'r gweithredwyr oedd yn hawlio oddi wrth Gyngor Gwynedd oedd â'u swyddogaeth "swyddfa gefn" eu hunain, gan eu galluogi i gynhyrchu eu hadroddiadau eu hunain a'u hanfon yn uniongyrchol i Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd i gefnogi eu cais. Un o'r cwmnïau hyn oedd Express Motors.

2.8 Bob mis, roedd yn ofynnol i Express Motors argraffu adroddiad o'r System Wayfarer yn dangos union nifer y teithiau rhatach yn y mis blaenorol a chyflwyno'r adroddiad hwn fel dogfen gefnogol ar gyfer eu hawliad am daliad teithio rhatach ("ffurflen C5") i'r Adran Rheoleiddio i gael ei brosesu.

<u>Nifer trawiadau gan deithwyr</u>

2.9 Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Cyngor Sir y Fflint er mwyn sefydlu os oeddynt, gan eu bod yn gweithredu fel 'swyddfa gefn' eu hunain, yn gallu cyflenwi gwybodaeth am ddefnydd cerdyn ar gyfer pob gweithredwr bysiau eraill. Nid oedd hyn yn bosibl ac yn gyntaf cyfeiriwyd Archwilio Mewnol at Parkeon, sef y cwmni oedd yn cyflenwi peiriannau tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus (y system Wayfarer). Ni allai Parkeon ddarparu'r wybodaeth chwaith a chyfeiriwyd yr archwiliwr wedyn i ACT, y cwmni sy'n gyfrifol am cardiau teithio bws ac sy'n cynnal y data ar ddefnydd cardiau. Cynhelir holl ddata/gwybodaeth ar y defnydd o gardiau ar weinyddion Ddeddf fel y nodir yn eu cytundeb / contract gyda Llywodraeth Cymru.

2.10 Cysylltwyd ag ACT am fanylion yr holl gardiau a oedd wedi cael eu defnyddio mwy na 3 gwaith ar unrhyw ddiwrnod ar lwybrau oedd yn cael eu gwasanaethu gan Express Motors yng Ngwynedd rhwng Medi 2013 a Chwefror 2014.

2.11 Darparodd ACT yr wybodaeth ar ffurf taenlen Excel yn rhestru'r holl rifau cerdyn, ac yn dangos nifer y Trafodion fesul gwasanaeth fesul dydd fesul cerdyn (pan oedd nifer y trafodion 3 neu fwy). Byddai un daith ddwyffordd fel arfer yn cynnwys 2 trawiad. Yn ystod y 6 mis yn ein sampl, roedd 65,677 o drafodion cerdyn ar lwybrau oedd yn cael eu gwasanaethu gan Express Motors a oedd y trydydd neu fwy trafodyn gan un cerdyn ar yr un llwybr ar yr un dyddiad.

2.12 Fodd bynnag, ceir gwendidau amlwg mewn tybiaeth bod unrhyw drafodion y tu hwnt i ail ar yr un llwybr ar yr un diwrnod yn dwyllodrus:

- Nid yw'n afresymol i ddisgwyl fod rhai pobl yn gwneud yr un daith ddychwelyd mwy nag unwaith y dydd, yn enwedig ar wasanaeth "gwennol" lleol.
- Roedd y ddata a dderbyniwyd ar gyfer llwybrau a weinyddwyd gan Express Motors. Roedd rhai o'r llwybrau hyn yn cael eu rhannu gyda darparwyr eraill ar y pryd.

Pedwar cerdyn a ddefnyddwyd yn aml

2.13 Penderfynwyd ar y cam yma o’r ymchwiliad i ofyn am wybodaeth fwy manwl o ACT o union ddyddiad ac amser y defnydd a wnaed o 4 cerdyn a ddefnyddiwyd fwyaf aml ar gyfer y cyfnod Medi 2013 a Mai 2014. Roedd hyn yn dangos patrwm cylchol lle defnyddiwyd y cardiau hyn ar yr un pryd bob dydd ar sawl achlysur. Er enghraifft, ar 4 Tachwedd 2013 defnyddiwyd y pedwar cerdyn yma ar yr un pryd drwy gydol y dydd, cyfanswm o 236 o drafodion. Cafwyd enwau deiliaid y 4 cerdyn o'r system Wayfarer a gwelwyd mai Mr Eric Wyn Jones, perchennog Express Motors, oedd un o'r rhain.

2.14 Wrth ddadansoddi'r data hwn, roedd amheuaeth ynghylch dilysrwydd ffigurau misol tocynnau teithio rhatach a ddarparwyd gan Express Motors, oedd o bosibl wedi arwain at chwyddiant o ffigurau teithiau rhatach dros nifer o flynyddoedd. Roedd data mwy cadarn ar gael ar gyfer y cyfnod ers cyflwyno'r Wayfarer system yn Express Motors, yn 2011.

2.15 O ganlyniad i'r gwaith cychwynnol a wnaethpwyd gan Archwilio Mewnol, cyfeiriwyd y mater at Heddlu Gogledd Cymru, i gynnal ymholiadau pellach.

2.16 Arweiniodd y gwaith manwl yma, lle roedd yr ymchwilwyr yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, at euogfarnau a dedfrydau carchar ar gyfer pum unigolyn.

**3. RHEOLAETHAU MEWNOL PELLACH**

3.1 Fel y nodwyd uchod, prynwyd y systemau a ddefnyddir gan gwmnïau bysiau ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru; roedd y contractau/cytundebau rhwng y cwmnïau a LlC – nid y cynghorau. Ar adeg yr ymchwiliad cychwynnol gan Archwilio Mewnol, nid oedd unrhyw adroddiadau eithriad yn cael eu darparu a fyddai wedi codi pryderon ynghylch gorddefnydd o gardiau teithio.

3.2 Ymhellach, mae wedi'i weld yn dilyn hynny y gellid defnyddio cardiau teithio er gwaethaf cael eu canslo ar y system gan swyddogion y Cyngor.

3.3 Fodd bynnag, yn dilyn yr ymchwiliad yma mae awdurdodau bellach yn derbyn adroddiadau eithriad am gardiau sydd wedi'u defnyddio sawl gwaith mewn un diwrnod, er mwyn caniatáu ymchwiliad pellach lle bo angen.

3.4 Dylid nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi rhoi gofyniad ar yr holl awdurdodau lleol sy'n dymuno parhau i fod yn rhan o'r cynllun tocynnau teithio rhatach i lofnodi contract newydd. Mae'r contract newydd yn datgan yn benodol bod awdurdodau lleol yn atebol am unrhyw dwyll a ddarganfyddir, sydd yn risg sylweddol i gynghorau.

3.5 Dylid hefyd nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi caffael system newydd sy'n disodli system Parkeon, ond bydd ACT yn parhau i gyflenwi cardiau teithio, a darparu data trafodion cerdyn.

3.6 Bydd swyddogion o’r Adran Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ateb unrhyw gwestiynau.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i dderbyn yr adroddiad hwn fel cefndir o’r twyll yn Express Motors erbyn y Cyngor, a beth a wnaeth y Cyngor i ymateb.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi’r risg y mae'r contract newydd gyda Llywodraeth Cymru yn ei osod ar y Cyngor, ac i ofyn am wybodaeth am y camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg hon.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2018** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn y wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Awst 2018) i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen Penderfyniad Cabinet 16/10/2018
Adroddiad Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Awst (Cabinet 16/10/2018)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

**PWNC**

Eitem 13:CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan yr adrannau i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.
- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w defnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Hydref 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Awst 2018

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Priffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan y dair adran i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.

- Ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.

- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w ddefnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2018/19, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Gorwariant gan wasanaethau Darparu a llithriad yng ngwireddu cynlluniau arbedion o 2017/18, yn cael eu gwrthbwyso gan danwariant ar wasanaethau Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Dysgu.

**2.2 Adran Plant a Theuluoedd**

Y tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol ac Arbenigol/Derwen.

**2.3 Adran Addysg**

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis a bysus ysgolion, gorwariant yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ac ar arlwyaeth a glanhau.

**2.4 Adran Economi**

Llithriad cynllun arbedion yn y maes hamdden a cholled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf. Argymhellir fod yr adran yn cael ei ddigolledu am y golled incwm dros y cyfnod.

**2.5 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysáu yn ystod 2018/19, sydd yn gyfuniad o gynnydd yn y costau gweithredol, costau cynyddol salwch, ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu a diffyg incwm.

**2.6 Corfforaethol**

Rhagolygon o gynnyrch treth ychwanegol ar y cynllun Premiwm Treth y Cyngor, ond ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig yn lleihau'r incwm. Bu tanwariant ar leihad mewn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor, arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, bidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, a thanwariant o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol diweddar. Argymhellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**3. Cyffredinol**

Mae'r adolygiad ddiwedd Awst o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol derbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Addysg, Plant a Theuluoedd, a Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019 ar yr adolygiad ddiwedd Tachwedd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

---

## Cyllideb Refeniw 2018/19 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Awst | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Sefyllfa Terfynol 2017/18 £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 51,315 | 153 | 0 | 153 | *(100)* |
| **Plant a Theuluoedd** | 14,221 | 1,090 | 0 | 1,090 | *723* |
| **Addysg** | 87,292 | 750 | 0 | 750 | *207* |
| **Economi a Chymuned** | 5,401 | 201 | (40) | 161 | *18* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 25,002 | 560 | 0 | 560 | *100* |
| **Amgylchedd** | 7,290 | (29) | 0 | (29) | *(100)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 280 | (20) | 0 | (20) | *(82)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 1,992 | (58) | 0 | (58) | *(66)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 6,151 | (66) | 0 | (66) | *(66)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 7,614 | (100) | 0 | (100) | *(67)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (2,674) | 1,904 | (770) | *0* |
| **Cyfansymiau (net)** | 206,558 | (193) | 1,864 | 1,671 | *567* |

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 11,408 | 11,423 | 15 | 0 | 15 | (197) |
| Gofal Cartref | 6,241 | 5,729 | (512) | 0 | (512) | (215) |
| Eraill | 1,820 | 1,874 | 54 | 0 | 54 | (213) |
| | 19,469 | 19,026 | (443) | 0 | (443) | (625) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 523 | 454 | (69) | 0 | (69) | (14) |
| Gofal Cartref | 1,108 | 938 | (170) | 0 | (170) | (37) |
| Eraill | 663 | 689 | 26 | 0 | 26 | (29) |
| | 2,294 | 2,081 | (213) | 0 | (213) | (80) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 16,618 | 16,413 | (205) | 0 | (205) | (479) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,569 | 1,563 | (6) | 0 | (6) | 166 |
| Eraill | 1,888 | 1,978 | 90 | 0 | 90 | (200) |
| | 3,457 | 3,541 | 84 | 0 | 84 | (34) |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 2,965 | 3,080 | 115 | 0 | 115 | (19) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **44,803** | **44,141** | **(662)** | **0** | **(662)** | **(1,237)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 115 | 379 | 264 | 0 | 264 | 362 |
| Gofal Dydd | 7 | 48 | 41 | 0 | 41 | 89 |
| Gofal Cymunedol | 545 | 982 | 437 | 0 | 437 | 270 |
| Eraill | 25 | 119 | 94 | 0 | 94 | (59) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **692** | **1,528** | **836** | **0** | **836** | **662** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,870 | 1,975 | 105 | 0 | 105 | 12 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,950 | 4,281 | 331 | 0 | 331 | 426 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | | 37 |
| Defnydd o gronfa benodol | | (457) | (457) | 0 | (457) | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **5,820** | **5,799** | **(21)** | **0** | **(21)** | **475** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **51,315** | **51,468** | **153** | **0** | **153** | **(100)** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - lleihad yn nifer y pecynnau gofal cartref, ond prinder darparwyr mewn rhannau o Wynedd wedi arwain at gynnydd yn y rhestrau aros.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref a phreswyl a nyrsio yn parhau eleni.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - tanwariant ar breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn cael eu lleihau gan orwariant ar wasanaethau dydd.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - cynnydd yng nghostau llety cefnogol a thrafodaethau yn parhau efo'r gwasanaeth iechyd am gyfraniadau am y ddarpariaeth.

**Gwasanaethau Darparu** - cynnydd yn y tueddiad gorwariant ers 2017/18, costau staffio ychwanegol sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Costau yn uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ar Ofal Cymunedol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynllun arbedion.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - llithriad mewn gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion o 2017/18.

Wrth gau cyfrifon 2017/18, rhoddodd y Cabinet ar 22 Mai 2018 ganiatad i'r Adran drosglwyddo £457k cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol. Gan fod yr adran yn gorwario eleni, mae'n briodol fod y £457k yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 611 | 595 | (16) | 0 | (16) | (19) |
| Gweithredol | 2,069 | 2,231 | 162 | 0 | 162 | 256 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,587 | 2,187 | 600 | 0 | 600 | 405 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,009 | 1,033 | 24 | 0 | 24 | 135 |
| Maethu Mewnol | 1,701 | 1,912 | 211 | 0 | 211 | 102 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,625 | 1,715 | 90 | 0 | 90 | 70 |
| | 5,922 | 6,847 | 925 | 0 | 925 | 712 |
| Ôl-16 | 999 | 1,108 | 109 | 0 | 109 | (5) |
| Arbenigol/Derwen | 1,687 | 1,843 | 156 | 0 | 156 | 22 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 252 | 207 | (45) | 0 | (45) | (40) |
| Blynyddoedd Cynnar | 162 | 160 | (2) | 0 | (2) | (27) |
| Ieuenctid | 922 | 734 | (188) | 0 | (188) | (53) |
| Eraill | 1,597 | 1,586 | (11) | 0 | (11) | (123) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | | (676) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **14,221** | **15,311** | **1,090** | **0** | **1,090** | **723** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - y tueddiad yn parhau ers 2017/18 gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau maethu.


**Lleoliadau** - cynnydd yng nghostau pecynnau lleoliadau all-sirol newydd ond cwtogiad cyson yng nghyfraniadau iechyd. Y cynllun Aros Ymlaen yn gorwario yn Maethu Mewnol a phwysau ar y gwasanaethau cefnogol oherwydd gofynion gorchmynion llys, gyda gorwariant ar lwfansau gorchymyn preswyl a lwfansau maethu. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y maes all-sirol i edrych ar y rhagdybiaethau y cynlluniau arbedion cysylltiedig, bydd canlyniad yr ymchwil yn cael ei adrodd i'r cabinet yn fuan.

**Ôl-16** - dau achos sydd wedi trosglwyddo o leoliadau all-sirol yn ddiweddar yn gyfrifol am y gorwariant.

**Arbenigol/Derwen** - Galw cynyddol ar y gwasanaeth sydd angen cefnogaeth arbenigol, gyda dros hanner cant achos newydd am egwyl fer i'r gwasanaeth cefnogol wedi eu cyfeirio yn ystod 218/19.

**Ieuenctid** - tanwariant un-tro yn ystod cyfnod trosiannol o ddarparu'r gwasanaeth ieuenctid.

Mae'r pwysau cynyddol yn nifer yr achosion gan yr Adran i'w weld yn y siart isod. Ond, gofynnir i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Phennaeth yr Adran sicrhau camau pendant i geisio lleihau y gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.



**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 74,087 | 74,087 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (411) | (558) | (147) | 0 | (147) | (347) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 4,606 | 5,088 | 482 | 0 | 482 | 284 |
| Gwasanaeth Atodol | 413 | 513 | 100 | 0 | 100 | 262 |
| Eraill | 2,301 | 2,271 | (30) | 0 | (30) | 30 |
| | 7,320 | 7,872 | 552 | 0 | 552 | 576 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,112 | 2,121 | 9 | 0 | 9 | 20 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,184 | 4,520 | 336 | 0 | 336 | (42) |
| **Cyfanswm Addysg** | **87,292** | **88,042** | **750** | **0** | **750** | **207** |

**Addysg**

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion -** rhagolygon tanwariant o (£147k) o ganlyniad i drosiant staff, denu incwm grant a lleihad mewn costau.

**Cludian**t - y tueddiad gorwariant a welwyd yn 2017/18 wedi dwysáu. Diffyg o £25k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16 a £117k gorwariant ar gludiant bysus ysgol yn dilyn ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr.

Er fod cyllideb ychwanegol un-tro o £200k wedi ei roi i cludiant tacsis ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn, mae lefel y gorwariant a ragwelir wedi cynnyddu i £340k, sydd yn effaith flwyddyn lawn y twf yn 2017/18, ynghyd â chynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb eleni. Gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd ymchwilio i'r cynnydd yng ngwariant ar gludiant tacsis ysgolion a gweithredu i reoli'r sefyllfa ym mhob un o'r adolygiadau chwarterol yn 2017/18. Rydym ar ddeall gan yr Adran Addysg fod adolygiad yn mynd rhagddo, gyda rhai camau ymarferol i leihau'r gorwariant eisoes wedi'u cymryd. Gyda'r bwriad o adrodd ar ddarganfyddiadau'r adolygiad hwnnw erbyn yr adolygiad cyllid nesaf yn Ionawr 2019.

Gan fod sefyllfa ariannol cysylltiedig bellach wedi gwaethygu, gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - gorwariant o £100k, yn gyfuniad o gostau yn deillio o salwch a materion staffio yn Arlwyaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion, gorwariant ar y cynllun brecwast ynghyd â diffyg yn yr incwm prydau ysgol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am £216k o'r gorwariant. Unedau Cyn Ysgol yn gorwario £90k ac yn ystod y cyfnod trosiannol i'r gyfundrefn newydd, Addysg heblaw mewn Ysgol yn gorwario £70k, ond trosiant staff yn y gwasanaeth yn lleihau'r gorwariant a adroddir (£40k).

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 344 | 344 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Dysgu Cymunedol | 1,826 | 1,836 | 10 | 0 | 10 | (27) |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,149 | 1,175 | 26 | 0 | 26 | 7 |
| Economi a Chymuned | 366 | 332 | (34) | 0 | (34) | 16 |
| Cymunedau'n Iach | 1,716 | 1,915 | 199 | (40) | 159 | 21 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,401** | **5,602** | **201** | **(40)** | **161** | **18** |

## Economi a Chymuned

**Twristiaeth a Threftadaeth** - rhagolygon gorwariant o £63k gan Storiel yn gyfuniad o orwariant ar staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant gan y Neuaddau ac Archifau yn lleihau y gorwariant a adroddir.

**Economi a Chymuned** - tanwariant ar gefnogi busnes, parciau gwledig a rhagori ar incwm traethau yn dilyn y tywydd ffafriol, yn cael ei leihau gan ddiffyg incwm o £52k gan yr Hafan, Pwllheli.

**Cymunedau'n Iach -** dau prif ffactor yn gyfrifol am y gorwariant o £199k, £157k o lithriad ar y cynllun arbedion rhedeg cyfleusterau hamdden a £40k colled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon am 10 wythnos dros yr haf. Wrth osod y gyllideb eleni, nodwyd fod bwriad cau pwll nofio Arfon dros yr haf, fyddai'n arwain at golled incwm. Ni roddwyd adnodd ychwanegol ar ddechrau'r flwyddyn, ond y byddai yn cael ystyriaeth wrth gwblhau'r adolygiad o gyllidebau. Argymhellir fod y Cabinet yn digolledu'r Adran am y golled incwm.

**Argymhellir** digolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef colled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,777 | 9,843 | 66 | 0 | 66 | 49 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 373 | 402 | 29 | 0 | 29 | 112 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 10,959 | 11,137 | 178 | 0 | 178 | 184 |
| | Eraill | 3,893 | 4,180 | 287 | 0 | 287 | (42) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | | | (203) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **25,002** | **25,562** | **560** | **0** | **560** | **100** |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - Gorwariant un-tro ar gostau staff yn gyfrifol am y gorwariant.

**Gwastraff** - Rhagwelir gorwariant o £178k ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, gyda pharhad yn y tueddiad o orwariant cysylltiedig â salwch a chostau gweithredol uwch. Mae'r adran eisioes wedi cymryd camau i geisio datrysiad, drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu, fydd yn dod i rym yn Nhachwedd yn Nwyfor ac yna Arfon a Meirionnydd yn 2019/20. Tanwariant ar benawdau eraill yn cynorthwyo i leihau maint y gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - y rhagolygon yn awgrymu gorwariant o £287k yn bennaf ar yr ochr gwastraff masnachol. Costau cynyddol rhedeg cerbydau, cynnydd ym mhrisiau contractwyr ymdrin â deunyddiau ailgylchu ynghyd â cholled incwm i gyd yn cyfrannu at y gorwariant. £69k o'r colled incwm o ganlyniad i gystadleuaeth allanol am wastraff masnachol a £15k busnesau yn cau.

Er fod rhai camau eisioes wedi eu cymryd ar yr ochr Gwastraff, disgwylir i'r Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Pennaeth Adran gymryd camau pendant pellach yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb. Gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd ar y mater yn uniongyrchol i'r Cabinet.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 493 | 495 | 2 | 0 | 2 | (49) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 194 | 321 | 127 | 0 | 127 | 40 |
| Eraill | 204 | 189 | (15) | 0 | (15) | (16) |
| | 398 | 510 | 112 | 0 | 112 | 24 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 748 | 657 | (91) | 0 | (91) | 46 |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,651) | (1,717) | (66) | 0 | (66) | 48 |
| Cludiant Integredig | 1,671 | 1,670 | (1) | 0 | (1) | (257) |
| | 768 | 610 | (158) | 0 | (158) | (163) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 748 | 745 | (3) | 0 | (3) | 12 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,636 | 1,621 | (15) | 0 | (15) | (43) |
| Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 3,247 | 3,280 | 33 | 0 | 33 | 30 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | | 89 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **7,290** | **7,261** | **(29)** | **0** | **(29)** | **(100)** |

## Amgylchedd

**Gwasanaeth Cynllunio** - rhagwelir ddiffyg ar yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu, sydd yn dilyn y tueddiad y blynyddoedd diwethaf.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - rhagolygon ffafriol yn bennaf o ran yr incwm yn y maes Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) a Pharcio a Gorfodaeth, ynghyd â thanwariant staffio.

Costau ychwanegol yn deillio o ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr bysus yn Cludiant Integredig. Ar ddiwedd 2017/18 derbyniwyd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau cynyddol, a rhoddodd y Cabinet ar 22 Mai 2018 ganiatad i'r Adran roi £378k ohono mewn cronfa benodol i'r pwrpas. Mae rhan o'r gronfa wedi ei defnyddio i gyllido'r gorwariant cysylltiedig eleni.

| **CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (361) | (433) | (72) | 0 | (72) | (110) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (24) | 7 | 31 | 0 | 31 | (8) |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 549 | 551 | 2 | 0 | 2 | 9 |
| Rheolaeth Adeiladu | 116 | 135 | 19 | 0 | 19 | 27 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **280** | **260** | **(20)** | **0** | **(20)** | **(82)** |



## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£72k), yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol. Gyda'r rhagolygon ar y pwynt yma o'r flwyddyn yn llawer mwy addawol na mewn blynyddoedd blaenorol.

**Gwasanaeth Adeiladu** - y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith gan sefydliadau allanol i ddenu incwm, ond yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol rhagwelir diffyg incwm o £31k erbyn diwedd y flwyddyn.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm yn gyfrifol am y gorwariant o £19k.

| CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,992 | 1,934 | (58) | 0 | (58) | (66) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,151 | 6,085 | (66) | 0 | (66) | (66) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,614 | 7,514 | (100) | 0 | (100) | (67) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,757** | **15,533** | **(224)** | **0** | **(224)** | **(199)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£58k) gyda'r mwyafrif ohono yn deillio o dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol a (£14k) o arbedion a wireddwyd ymlaen llaw yn y maes Cynllunio Argyfwng.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran, ynghyd â denu incwm uwchlaw lefel y gyllideb, fyddai'n gallu cyfrannu at gynllluniau arbedion o 2019/20 ymlaen. Yn dilyn problemau technoleg gwybodaeth yn Gorffennaf, mae'r adran eisioes wedi dargyfeirio arbedion ymlaen llaw i gryfhau'r ddarpariaeth isadeiledd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant a ragwelir yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i swyddi gwag, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb, fyddai'n gallu ei ddefnyddio i gyfrannu at gynlluniad arbedion o 2019/20 ymlaen. Gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni, mae'r adran eisioes wedi trosgwlyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

| CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2017/18 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor | * | * | (792) | 0 | (792) | 441 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (150) | 150 | 0 | (307) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 22 | 0 | 22 | 1 |
| Arbedion ac Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw | * | * | (404) | 404 | 0 | 0 |
| Bidiau a Chyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (630) | 630 | 0 | (563) |
| Eraill | * | * | (720) | 720 | 0 | (466) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2017/18 | | | | | | 894 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(2,674)** | **1,904** | **(770)** | **0** |



## Corfforaethol

**Treth y Cyngor a Phremiwm Treth y Cyngor** - Rhagolygon o gynnyrch treth ychwanegol o (£792k) (uwchlaw cynnyrch treth premiwm o £2.2m a gyllidebwyd), o fewn y sefyllfa mae effaith y Cynllun Premiwm Treth y Cyngor, sef premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag ers dros 12 mis ynghyd â Threth y Cyngor. Yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn mae Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatau 146 eiddo i drosglwyddo o'r rhestr Treth y Cyngor i Drethi Annomestig (63 eiddo yn 5 mis cyntaf 2017/18) gyda effaith ôl ddyddio y ceisiadau i 2017/18, ac o ganlyniad, mae colled incwm treth ôl-ddyddio'r cynnyrch treth o'r premiwm.

**Gostyngiadau Treth y Cyngor** - y tueddiad tanwariant ar gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (budd-daliadau) yn parhau ers 2017/18, gyda lleihad yn y nifer o geisiadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Tanwariant o ganlyniad i arbedion ac arbedion a wireddwyd ymlaen llaw (£404k), bidiau a chyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau (£630k) a chyllidebau Eraill (£720k) yn dilyn newidiadau ar ôl gosod y gyllideb am y flwyddyn. Derbyniad grant un-tro gan Lywodraeth Cymru yn golygu fod modd rhyddhau cyllideb demograffi oedolion, newidiadau deddfwriaethol a chynnydd yn y cap polisi codi tâl yn y maes gofal oedolion yn golygu fod modd ildio cyllidebau pellach.

Disgwylir y bydd Hawliad Treth ôl-ddyddiedig yn ymwneud â newidiadau Treth ar Werth yn y maes Hamdden yn sicrhau ad-daliad un-tro o oddeutu £1.5m yn ystod 2018/19. Bydd y ffigyrau yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiad yn dilyn cymeradwyaeth y cais.

**Argymhellir** cynaeafu (£1,904k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w ddefnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau dros yr haf. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2018** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Awst 2018) i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen Penderfyniad Cabinet 16/10/2018
Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Awst 2018 (Cabinet 16/10/2018)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

**PWNC**

Eitem 14:RHAGLEN GYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,444,000 mewn amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2017/18
- £10,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £10,988,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £789,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £187,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £4,859,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Hydref 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2018/19 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2018)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,444,000 mewn amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2017/18
- £10,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £10,988,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £789,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £187,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £4,859,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2018/19. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £47.022m am y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £25.277m ers y gyllideb agoriadol, gyda £8.444m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2017/18 (adroddwyd eisoes ar 22 Mai 2018).

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2018/19 i 2019/20
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2018/19.

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £28.6m yn 2018/19, gyda £6.9m (24%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £1.0m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2018/19 i 2019/20, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynllluniau yn llithro.

## 3. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 i 2020/21

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 4,261 | 8,414 | 3,624 | 16,299 | 14,675 | 2,005 | 12,670 |
| Amgylchedd | 8,232 | - | 43 | 8,275 | 3,236 | 1,771 | 1,465 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 124 | - | - | 124 | 15 | 15 | - |
| Cyllid | 952 | 74 | - | 1,026 | 317 | 174 | 143 |
| Economi a Chymuned | 385 | 254 | - | 639 | 197 | 48 | 149 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,097 | 554 | - | 4,651 | 1,043 | 878 | 165 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 862 | 990 | 525 | 2,377 | 2,378 | 370 | 2,008 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 94 | - | - | 94 | 94 | - | 94 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,870 | 1,995 | 1,913 | 12,778 | 3,063 | 2,933 | 130 |
| Ymgynghoriaeth | 163 | - | 44 | 207 | 37 | 28 | 9 |
| Corfforaethol | 552 | - | - | 552 | 222 | 222 | - |
| **CYFANSWM** | **28,592** | **12,281** | **6,149** | **47,022** | **25,277** | **8,444** | **16,833** |

## 4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £25.277m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,666 | - | - | 6,666 | - | - | - |
| Benthyca Arall | 2,402 | 855 | 777 | 4,034 | 2,002 | 1,992 | 10 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 6,923 | 7,554 | 525 | 15,002 | 11,817 | 829 | 10,988 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 375 | 35 | 750 | 1,160 | 867 | 78 | 789 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,441 | 36 | - | 1,477 | 469 | 282 | 187 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,721 | 880 | - | 4,601 | 1,354 | 1,354 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,064 | 2,921 | 4,097 | 14,082 | 8,768 | 3,909 | 4,859 |
| **CYFANSWM** | **28,592** | **12,281** | **6,149** | **47,022** | **25,277** | **8,444** | **16,833** |

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2018/19 – 2020/21.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A, B a C

---------------------------

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2018/19<br>£'000 | 2019/20-2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – Cynllun Ysgolion Ardal Bangor – grant Llywodraeth Cymru | 769 | 5,513 |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – cyfraniad o gytundeb 106 gan gwmni Redrow fel rhan o'r arian cyfatebol Cynllun Ysgolion Ardal Bangor. | | 1,097 |
| • Datblygiad Llys Cadfan (Adran Oedolion Iechyd a Llesiant) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gartref Llys Cadfan i dderbyn gwelyau dementia ac arbenigol. | 561 | 1,125 |
| • Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). | 112 | 144 |
| • Cynlluniau Grant Hwyluso (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) - grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhoi mwy o Gymorth i drigolion i allu byw yn annibynnol yn eu cartref eu hunain. | 154 | |
| • Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol gan Lywodraeth Cymru (Adran Amgylchedd) ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys A4086 Llanrug i Pontrug; B4366 Bethel i Gaernarfon; A499 Y Ffôr i Bwllheli. | 1,310 | |
| • Cynllun Llwybr yr Arfordir Gwedd 2 (Adran Amgylchedd) - grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr ail wedd o'r cynllun yma. | 91 | |
| • Grant Newydd TAIS gan Lywodraeth Cymru – gwelliannau Traethau Banner Las (Adran Economi a Chymuned). | 68 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – rhan o'r arian cyfatebol Cynllun Ysgolion Ardal Bangor. | | 750 |
| • Depos (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gwaith ar nifer o agweddau o ddepos y Cyngor i ddod â hwy i fyny i safon. | 29 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Adnewyddu System Awyru Ystafell Gweinyddwyr yr Uned Technoleg Gwybodaeth (Adran Cyllid). | 41 | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 110 | 36 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – rhan o'r arian cyfatebol Cynllun Ysgolion Ardal Bangor. | | 4,500 |
| • Adnewyddu System Awyru Ystafell Gweinyddwyr yr Uned Technoleg Gwybodaeth (Adran Cyllid). | 92 | |
| • Depos (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gwaith ar nifer o agweddau o ddepos y Cyngor i ddod â hwy i fyny i safon. | 132 | |
| • Cynllun Cartgylchu – cynnydd yn y galw am y biniau ailgylchu Cartgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). | 90 | |

----------------------------

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi ei hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (210) | 210 |
| Cynlluniau Grantiau Tai (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (553) | 553 |
| Ysgol Gydol Oes Y Berwyn (Adran Addysg) | (140) | 140 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

----------------------------

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2018/19**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2018/19 £'000 | GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2018 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 4,261 | 1,544 |
| Amgylchedd | 8,232 | 702 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 124 | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 952 | 179 |
| Economi a Chymuned | 385 | 113 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,097 | 1,294 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 862 | 165 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 94 | 62 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,870 | 1,692 |
| Ymgynghoriaeth | 163 | 143 |
| Corfforaethol | 552 | - |
| **CYFANSWM** | **28,592** | **5,894** |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (21%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis yn 22% o'r gyllideb adolygiad Medi).

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn y wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) i'r Cabinet ar 16 Hydref 2018.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen Penderfyniad Cabinet 16/10/2018
Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion (Cabinet 16/10/2018)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

**PWNC**

Eitem 15:TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## ADRODDIAD I'R CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **16 Hydref 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:<br>Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19. Adroddir yma ar arbedion 2018/19 a'r blynyddoedd blaenorol.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 - 2017/18

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2017/18, cyfanswm o dros £24m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod £23m, neu 95%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

Mae hyn yn bennaf yng nghynlluniau 2017/18 yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant lle mae'r her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau, ac hefyd yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, lle bu i'r Cabinet ar 11 Medi 2018 gymeradwyo rhai cynlluniau amgen, a gohirio gweithredu ar y cynllun "Canolfannau Ailgylchu (PB5)" gan ymdrin â'r bwlch o £96,000 sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolygon presennol o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2018/19. O'r 26 o gynlluniau, mae 11 eisoes wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol, ac yn galonogol, dim ond dau gynllun a ragwelir fydd yn llithro.

Un ohonynt yw'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" yn yr Adran Plant a Theuluoedd, lle mae'r arbedion o £250,280 sy'n ddisgwyliedig yn y flwyddyn yn destun pryder. Bu i'r Aelod Cabinet, yn ei adroddiad i'r Cabinet ar 25 Medi 2018 gyfeirio at yr her gwireddu sylweddol sydd wedi dod i'r amlwg o ran disgwyliadau ariannol y cynllun o'u cymharu â'r damcaniaethau gwreiddiol. Rwy'n gofyn i'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd adrodd yn fuan i'r Cabinet ar adolygiad o'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd".

O ran gweddill y cynlluniau, mae'r rhagolygon o wireddu'r arbedion yn parhau yn gyffredinol addawol.

## 4. CASGLIAD

Er bod rhai adrannau wedi gwireddu'r oll o'u cynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn hynod ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Rwyf hefyd yn hyderus y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud er gwireddu mor fuan ag y bo modd y cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nod.

Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2017/18 fesul adran
Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul adran

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 i 2017/18 FESUL ADRAN** **ATODIAD 1**

| Adran | Cyfanswm Arbedion<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun wedi'i ohirio<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 685,860 | 598,879 | 86,981 (2) | - | Gwaith ar wireddu'r cynllun "Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau" wedi ei ehangu, ac yn parhau. Rhagwelir gwireddu'r arbedion yn 2018/19.<br>Bu ychydig o lithriad ar gychwyn gweithredu'r cynllun "Lleihau amser / a neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd". Rhagwelir gwireddu'r arbedion llawn yn fuan. |
| Ysgolion | 4,037,000 | 3,738,010 | 298,990 (1) | - | Mae'r Cabinet ar 13.12.16 wedi cymeradwyo pontio am ddwy flynedd y swm o £298,990 o arbedion 2017/18 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod. |
| Amgylchedd | 2,179,353 | 2,179,353 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 1,652,838 | 1,652,838 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 960,826 | 960,826 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,085,602 | 2,085,602 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,934,141 | 4,473,401 | 460,740 (7) | - | Er bod cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau roedd wedi llithro, mae amrediad o gynlluniau 2017/18 yn parhau heb eu gwireddu yn llawn. |

| | Cyfanswm Arbedion<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun wedi'i ohirio<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 1,987,318 | 1,870,318 | 117,000 (1) | - | Mae'r Adran wedi cynnal adolygiad o'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" er mwyn ceisio darganfod sut mae'r arbedion yn cyd-fynd efo'r rhagamcanion. Bydd adroddiad ar y sefyllfa, gan gynnwys adolygiad o'r arbedion pellach a ragwelir, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,968,550 | 4,711,550 | 161,000 (8) | 96,000 (1) | Llithriad bach sy'n cael ei ragweld efo rhan o'r wyth cynllun, gyda gobaith y byddant yn cael eu gwireddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Cabinet ar 11 Medi 2018 wedi cymeradwyo gohirio gweithrediad y cynllun arbediad "Canolfannau Ailgylchu (PB5)", gan ymdrin â'r bwlch o £96,000 sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen. |
| Ymgynghoriaeth | 387,000 | 387,000 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 172,270 | 172,270 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Trawsadrannol | 224,220 | 224,220 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **24,274,978** | **23,054,267** | **1,124,711 (19)** | **96,000 (1)** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 95% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi eu gwireddu.** |

16.10.2018

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2018/19<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar trac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 521,450 (3) | - | 521,450 (3) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Ysgolion | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Amgylchedd | 154,970 (6) | 154,970 (6) | - | - | Holl gynlluniau wedi eu gwireddu |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 47,340 (2) | 47,340 (2) | - | - | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Cyllid | 66,430 (2) | 66,430 (2) | - | - | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 308,830 (3) | - | 152,330 (3) | 156,500 (1) | Mae gwaith ar y gweill i wireddu'r holl gynlluniau, ond rhagwelir mai 1 Ebrill 2019 fydd dyddiad trosglwyddo'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden i'r cwmni newydd. O ganlyniad, bydd llithriad cyn gwireddu'r arbedion sydd i ddod o'r cynllun "Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol" yn llawn. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 645,000 (6) | 575,000 (4) | 70,000 (2) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN**



| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2018/19**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol**<br><br>**£ (nifer)** | **Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro**<br><br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 314,480 (2) | - | 64,200 (1) | 250,280 (1) | Rhagwelir gwireddu'r cynllun cyfwerth a £64,200 yn amserol. Fodd bynnag, mae'r Adran Plant a Theuluoedd wedi cynnal adolygiad o'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" er mwyn ceisio darganfod sut mae'r arbedion yn cyd-fynd efo'r rhagamcanion. Bydd adroddiad ar y sefyllfa, gan gynnwys adolygiad o'r arbedion pellach a ragwelir, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 86,700 (1) | - | 86,700 (1) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| Ymgynghoriaeth | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 13,800 (1) | - | 13,800 (1) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |
| **Is-gyfanswm** | **2,159,000 (26)** | **843,740(14)** | **908,480 (11)** | **406,780 (2)** | |
| Trawsadrannol | 295,740 | - | 295,740 | | Cynlluniau ychwanegol i'w cymeradwyo |
| **CYFANSWM** | **2,545,740** | **843,740** | **1,204,220** | **406,780** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 33% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 47% ar drac i gyflawni'n amserol.** |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn ystod y cyfnod chwech mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

## 1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2018, a gellir ei weld ar y we yn https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16299/Rheolaeth%20Trysorlys%20-%20Atodiad%20A.pdf?LLL=1

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i'r strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae'r Cod Darbodus sydd wedi'i ddiweddaru yn cynnwys gofyniad newydd i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodeb wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu ei Strategaeth Cyfalaf yn ddiweddarach yn 2018-19 i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru (LlC) am sylwadau ar newidiadau i'w Chanllaw ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP). Mae'r rhain yn cynnwys eglurhad o'r newidiadau i derminoleg a chyfrifo'r MRP.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y Cefndir Economaidd**: Cynyddodd prisiau olew 23% yn ystod y chwe mis i tua $82/casgen. Cynyddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer mis Awst i 2.7% blwyddyn/blwyddyn, yn uwch na'r rhagolygon consensws a rhagolygon Banc Lloegr yn ei *Adroddiad Chwyddiant* ar gyfer mis Awst, wrth i effeithiau dibrisiant mawr y bunt yn 2016 ddechrau pylu. Dangosodd y data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer Gorffennaf 2018 y gyfradd ddiweithdra ar 4%, yr isaf ers 1975. Y gyfradd twf blynyddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflog arferol h.y. ac eithrio bonws, oedd 2.9% sy'n rhoi peth tystiolaeth bod prinder gweithwyr yn cefnogi cyflogau. Fodd bynnag, ni wnaeth cyflogau gwirioneddol (h.y. wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant) ond tyfu 0.2%, cynnydd ymylol sy'n annhebygol o fod wedi cael fawr o effaith ar aelwydydd.

Ymddengys bod yr adlam mewn twf GDP chwarterol yn Ch2 i 0.4% wedi gwyrdroi'r gwendid yn Ch1 a oedd yn bennaf yn sgil ffactorau'n ymwneud â'r tywydd. Fodd bynnag, dangosodd y manylion bod llawer o dwf GDP Ch2 yn sgil cynnydd mewn stoc. Mae'r twf GDP blwyddyn/blwyddyn o 1.2% hefyd yn is na'r duedd. Ni wnaeth Banc Lloegr unrhyw newidiadau i'w bolisi ariannol yn ei gyfarfodydd ym mis Mai na Mehefin, fodd bynnag, dilynwyd pleidlais 6-3 a chofnodion i gynnal y cyfraddau gan benderfyniad unfrydol am gynnydd yn y gyfradd o 0.25% ym mis Awst, gan olygu bod Cyfradd y Banc yn 0.75%.

Wedi codi'r cyfraddau ym mis Mawrth, cynyddodd Cronfa Ffederal yr UD ei ystod targed o gyfraddau llog swyddogol eto ym mis Mehefin a mis Medi 0.25% i'r 2%-2.25% cyfredol. Bellach, mae'r marchnadoedd yn disgwyl un cynnydd pellach yn 2018.

Ymddengys bod y rhyfel fasnach gynyddol rhwng yr UD a Tsieina wrth i dollau gael eu cyhoeddi gan weinyddiaeth Trump, fod yn anghydfod fawr, yn niweidiol i Tsieina ond hefyd i economïau Asiaidd eraill yn y gadwyn gyflenwi. Mae canlyniad hyn, ynghyd â pholisi ariannol tynnach, yn peryglu cyfrannu at arafu mewn gweithgaredd a thwf economaidd rhyngwladol yn 2019.

Aed â'r Mesur Gadael yr UE, sy'n diddymu Deddf Cymunedau Ewrop 1972 a aeth â'r DU i'r UE ac sy'n galluogi i gyfraith yr UE gael ei throsglwyddo yn gyfraith y DU, drwy'r Senedd. Gyda dim ond chwe mis ar ôl tan i Erthygl 50 ddod i ben ar 29 Mawrth 2019, nid yw'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE a fydd yn rhwymo mewn cyfraith materion gwahanu a'r setliad ariannol, na'i atodiad a fydd yn amlinellu siâp y berthynas yn y dyfodol, wedi'u cwblhau, sy'n ymestyn y cyfnod o ansicrwydd economaidd.

**Marchnadoedd ariannol:** Bu cynnyrch gilt yn gyfnewidiol iawn yn ystod y cyfnod, yn benodol yn dilyn argyfwng gwleidyddol yr Eidal ddiwedd mis Mai pan welwyd symudiadau mawr i gynnyrch bond y llywodraeth yn debyg i'r hyn a welwyd ar anterth argyfwng ariannol Ewrop gyda gostyngiadau mewn cynnyrch mewn bondiau llywodraeth hafan ddiogel y DU, yr Almaen a'r UD. Dros y cyfnod, er gwaetha'r cyfnod cyfnewidiol, roedd y newid bet mewn cynnyrch gilt yn fach. Cynnydd ymylol yn unig a fu i'r gilt meincnod 5 mlynedd, o 1.13% i 1.16%. Cafwyd cynnydd uwch mewn cynnyrch gilt 10 mlynedd o 1.37% i 1.57% ac yn y cynnyrch gilt 20 mlynedd o 1.74% i 1.90%. Fe arweiniodd y cynnydd yn y Gyfradd Banc at gyfraddau marchnadoedd ariannol uwch. Roedd cyfraddau LIBID 1 mis, 3 mis a 12 mis yn 0.56%, 0.707% a 0.95% ar gyfartaledd yn ôl eu trefn dros y cyfnod.

**Cefndir credyd:** Gan adlewyrchu'r canfyddiad o'i risg uwch, cynyddodd yr amrediad Cyfnewid Diffygdalu Credyd (CDS) ar gyfer banc nad oedd wedi'i glustnodi NatWest Markets plc yn gymharol llym dros y cyfnod i tua 96bps. Roedd y CDS ar gyfer yr endid sydd wedi'i glustnodi, National Westminster Bank plc, wedi aros yn gyson o dan 40bps. Er bod CDS banciau'r DU wedi cynyddu rhywfaint dros y cyfnod, maent yn parhau'n isel o gymharu â chyfartaleddau hanesyddol.

Mae clustnodi'r pedwar banc mawr yn y DU - Barclays, Bank of Scotland/Lloyds, HSBC a RBS/NatWest Bank plc - wedi'i gwblhau, mae trosglwyddo eu llinellau busnes i mewn i fanwerthu (wedi'i glustnodi) a banciau buddsoddi (heb ei glustnodi) yn bwrw ymlaen a bydd angen cwblhau hyn erbyn diwedd 2018.

Cafwyd ychydig o newidiadau i gyfraddau credyd yn ystod y cyfnod. Mae Moody's wedi gostwng cyfradd hirdymor Barclays Bank plc i A2 o A1 a NatWest Markets plc i Baa2 o A3 oherwydd ei farn ar fetrics credyd yr endidau ar ôl clustnodi. Roedd uwchraddiadau i gyfraddau hirdymor yn cynnwys y rhai ar gyfer Royal Bank of Scotland plc, NatWest Bank ac Ulster Bank i A2 o A3 gan Moody's ac i A- o BBB+ gan Fitch and Standard & Poor's (S&P) ill dau. Uwchraddiwyd Lloyds Bank plc a Bank of Scotland plc i A+ o A gan S&P ac i Aa3 o A1 gan Moody's.

O hyn ymlaen, bydd ein hymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose, yn darparu cyfraddiadau sy'n benodol i adneuon cyfanwerthol yn cynnwys tystysgrifau adneuo, yn hytrach na darparu cyfraddiadau credyd cyffredinol. Mae dyledion ansicredig nad ydynt yn cael eu ffafrio a bondiau uwch ar risg uwch o *'bail-in'* na chynnyrch adnau, naill ai drwy delerau cytundebol, cyfraith genedlaethol neu drwy hyblygrwydd yr awdurdodau penderfynu yn ystod *'bail-in'*. Bydd cyngor teilyngdod credyd Arlingclose yn parhau i gynnwys adneuon banc ansicredig a CDs ond nid bondiau ansicredig uwch a roddir gan fanciau masnachol.

## 3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor benthyciadau net £47m sydd wedi codi oherwydd gwariant refeniw a cyfalaf. Roedd yr angen benthyg gwaelodol fel caiff ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR) yn £177m, tra roedd y cronfeydd ar gael i ddefnyddio a chyfalaf gweithio ar gael i'w buddsoddi. Roedd gan y Cyngor £118m o fenthyciadau a £47m o fuddsoddiadau.

Crynhoir y ffactorau yma yn y tabl isod.

| | 31.3.18 Gwir £m |
|---|---|
| CFR y Gronfa Cyffredinol | 177 |
| Llai: *Rhwymedigaethau ddyled arall | (2) |
| **Benthyciadau CFR** | **175** |
| Benthyciadau allanol | (118) |
| **Benthyciadau mewnol** | **57** |
| Llai: Cronfeydd gellir defnyddio | (56) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (48) |
| **Benthyciadau Net** | **(47)** |

* Iesau cyllido, ymrwymiadau PFI

Mae strategaeth cyfredol y Cyngor yw cadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau gwaelodol, weithiau ei cydnabod fel benthyciadau mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau isel.

Mae sefyllfa rheoaleth trysorlys ar 30 Medi 2018 a'r newid dros y cyfnod yn cael ei dangos yn Tabl 2 isod.

| | 31.3.18 Balans £m | 6 mis Symudiad £m | 30.9.18 Balans £m | 30.9.18 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau Tymor Hir | 108 | 0 | 108 | 5.8 |
| Benthyciadau Tymor Byr | 10 | 0 | 10 | 0.8 |
| **Cyfanswm Benthyg** | **118** | **0** | **118** | **5.3** |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 1 | 0 | 1 | 0.9 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 34 | 7 | 41 | 0.4 |
| Arian a Cyfwerth Arian | 12 | 3 | 15 | 0.3 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **47** | **10** | **57** | **0.5** |

## 4. Y STRATEGAETH FENTHYCA

Ar 30/9/2018, roedd gan y Cyngor £108m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth i ariannu'r rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol a £10m o fenthyciadau at diben llif arian.

Yn ystod y deg mlynedd ddiwethaf o fenthyca fe wnaeth y Cyngor fonitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol drwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi buddion mewnol. Mae Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw na wnaeth nodi unrhyw werth mewn benthyca ymlaen llaw ar gyfer gwariant cynlluniedig y blynyddoedd nesaf.

Wedi codi cyfraddau polisi ym mis Awst 2018 i 0.75% mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) wedi cynnal disgwyliadau o gynnydd araf mewn cyfraddau llog dros y gorwel a ragwelir.

Mae gan yr MPC duedd bendant tuag at bolisi ariannol tynnach ond mae'n gyndyn o wthio disgwyliadau cyfraddau llog yn rhy gryf. Er bod y sawl sy'n ffurfio polisïau yn wyliadwrus o bwysau chwyddiannol domestig dros y ddwy flynedd nesaf, credir bod aelodau'r MPC yn ystyried bod (a) cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd a (b) bod Cyfradd Banc uwch yn arf fwy effeithiol pe byddai risgiau negyddol Brexit yn cael eu crisialu a bod angen gwneud toriadau.

Achos canolog Arlingclose yw y bydd Cyfradd Banc yn cynyddu ddwywaith yn 2019. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol. Mae amgylchedd economi'r DU yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad lafur sy'n ymddangos yn gryf. Adferwyd twf GDP rhywfaint yn Ch2 2018, ond mae'r gyfradd twf flynyddol o 1.2% yn parhau'n llawer is na'r cyfartaledd hirdymor.

| | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Ca | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |

Y farn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolygon heriol wrth i'r llywodraeth leiafrifol barhau i drafod gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gweithredoedd y banc canolog a risgiau geo-wleidyddol, megis rhyfeloedd masnach posib, wedi golygu amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bond, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Mae'r Cyngor yn disgwyl benthyca yn y chwe mis nesaf a bydd yn asesu a wneir hyn gan barhau i ddefnyddio benthyciadau byrdymor neu gymryd benthyciadau hirdymor.

**Sefyllfa Benthyca 30.09.18**

| | **31.3.18 Balans £m** | **6 Mis Symudiad £m** | **30.9.18 Balans £m** | **30.9.18 Cyfradd %** |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 95 | (2) | 93 | 5.8 |
| Banc (tymor hir) | 16 | 0 | 16 | 4.2 |
| Banc (tymor byr) | 0 | 10 | 10 | 0.8 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **111** | **8** | **119** | **5.5** |

**Diweddariad ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**

Roedd y Cyngor yn gymwys i fenthyca ar y 'Raddfa Sicrwydd' (0.20% islaw cyfradd safonol PWLB), am gyfnod o 12 mis o 1 Tachwedd 2017. Ym mis Medi 2018, cyflwynodd y Cyngor ei gais i'r Trysorlys er mwyn iddo gael mynediad at y raddfa ostyngedig hon am 12 mis arall, o 1 Tachwedd 2018.

**Aildrefnu Dyledion**

Arhosodd y taliad premiwm ar gyfer ad-daliad cynnar o ddyled PWLB yn gymharol ddrud am fenthyciadau ym mhortffolio'r Cyngor ac felly nid oedd aildrefnu dyledion yn ddeniadol. O ganlyniad, ni fu unrhyw weithgarwch aildrefnu.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y chwarter wedi llwyddo i leihau'r lefel o fenthyciadau, ynghyd â lleihau'r risg credyd, drwy ad-dalu'r benthyciadau o'r balansau buddsoddi.

## 5. GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Mae'r Cyngor yn dal arian wedi ei buddsoddi sydd yn cynrychioli'r incwm a derbyniwyd o flaen y gwariant yn ogystal â balansau a chronfeydd. Yn ystod y 6 mis, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £79.4 a £31.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amser rhwng incwm a gwariant. Dangosir y sefyllfa buddsoddi yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

| | 31.3.18 Balans £m | 6 mis Symudiad £m | 30.9.18 Balans £m |
|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 11.1 | 3.8 | 14.9 |
| Bonds gorchuddiedig (sicr) | 2.1 | (1.0) | 1.1 |
| Llywodraeth (gan gynnys awdurdodau lleol) | 25.0 | (7.0) | 18.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.3 | (0.4) | 8.9 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **47.5** | **(4.6)** | **42.9** |

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2018/19.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

**Adroddiad Perfformiad**

Mae'r Cyngor yn mesur y perfformiad cyllidol gweithgareddau rheolaeth trysorlys ar sail effaith ar y cyllideb refeniw yn erbyn meincnod cyfraddau llog, fel y dangosir yn y tabl isod.

| | **Sgôr Risg** | **Statws Credyd** | **Datguddiad Mechniaeth** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)** | **Cyfradd Adennill %** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2018 | 3.96 | AA- | 43% | 48 | 0.55 |
| 30.06.2018 | 3.85 | AA- | 42% | 52 | 0.69 |
| 30.09.2018 | | | | | |
| **AL tebyg** | **5.78** | **A** | **58%** | **248** | **0.75** |
| **Bob AL** | **4.21** | **AA-** | **62%** | **42** | **0.65** |

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuon, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno a bondiau gorchuddiedig.

£48.7m oedd y balans cyfartaledd arian yn ystod y chwech mis. Yn dilyn cyfradd Banc y DU ar 0.25% ers August 2016 cododd y cyfradd i 0.5% ym mis Hydref 2017 ac cododd eto ym mis Gorffennaf 2018 i 0.75%.

£0.17m yw'r cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar allbwn buddsoddi o 0.5% ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**Adroddiad Cydymffurfio**

Gallaf cadarnhau cydymffurfiaeth â'i Ddangosyddion Darbodus am 2018/19, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2018 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

**Ffin Dyled**

Dangosir cydymffurfiad gyda’r ffin awdurdodedig a’r ffin gweithredol ar gyfer dyled allanol yn y tabl isod.

| | 6 mis Uchafswm | 30.9.18 Gwir | 2018/19 Ffin Gweithredol | 2018/19 Ffin Awdurdodedig | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 106.5m | 106.5m | 180m | 190m | ✓ |
| PFI a lesau | 4.0m | 4.0m | **0** | **0** | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **110.5m** | **110.5m** | **180m** | **190m** | ✓ |

**Cyfyngiadau Buddsoddiadau**

| | H1 Uchafswm | 30.9.18 Gwir | 2018/19 Terfyn | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £6m | £43m | £6m yr un | ✓ |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | 0 | 0 | £6m fesul grŵp | ✓ |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | 0 | 0 | £15m fesul rheolwr | ✓ |
| Offerynnau y mae’n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | 0 | 0 | £30m fesul brocer | ✓ |
| Gwledydd tramor | £3m | £4m | £6m fesul gwlad | ✓ |
| Darparwyr Cofrestredig | 0 | 0 | Cyfanswm o £15m | ✓ |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | £3m | 2.1m | Cyfanswm o £6m | ✓ |
| Benthyciadau i Gorfforaethau heb eu raddio | 0 | 0 | Cyfanswm o £6m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | £32m | £8.9m | £30m in total | x |

Mae'r uchafsymiau ariannol yn y tabl uchod yn seiliedig ar uchafswm cyfanswm buddsoddiadau ar £60 miliwn. Ym mis Ebrill bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn derbyn dau daliad o grant y llywodraeth ar ddechrau'r mis. Aeth hyn â'r cyfanswm buddsoddiadau i dros £60miliwn am 14 diwrnod ac felly roedd y buddsoddiadau marchnad arian yn uwch na'r trothwy £30miliwn ond roedd bob amser yn is na 50% o'r cyfanswm buddsoddiadau.

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei datguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | **Targed** | **Gwir** |
|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 3.85 |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hyifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl mewn cyfnod pendodol, heb fenthyca ychwanegol.

| | **30.9.18 Gwir** | **2018/19 Targed** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | 14.8m | £10m | ✓ |

**Cyfradd Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Gwir | 100% | | |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |
| Gwir | 0% | | |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Uchaf** | **Isaf** | **Gwir** |
|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 0.3% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 4.9% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 16.3% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | 25.5% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | 12.7% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | 16.6% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% | 8.7% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Terfyn ar brif swm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £10m |
| Gwir | £2.18m | £0 | £0 |

## 7. Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 8. Rhagolygon ar gyfer Gweddill 2018/19

Wedi codi cyfraddau polisi ym mis Awst 2018 i 0.75% mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) wedi cynnal disgwyliadau o gynnydd araf mewn cyfraddau llog dros y gorwel a ragwelir.

Mae gan yr MPC duedd bendant tuag at bolisi ariannol tynnach ond mae'n gyndyn o wthio disgwyliadau cyfraddau llog yn rhy gryf. Er bod y sawl sy'n ffurfio polisïau yn wyliadwrus o bwysau chwyddiannol domestig dros y ddwy flynedd nesaf, credir bod aelodau'r MPC yn ystyried bod (a) cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd a (b) bod Cyfradd Banc uwch yn arf fwy effeithiol pe byddai risgiau negyddol Brexit yn cael eu crisialu a bod angen gwneud toriadau.

Achos canolog Arlingclose yw y bydd Cyfradd Banc yn cynyddu ddwywaith yn 2019. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol. Mae amgylchedd economi'r DU yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad lafur sy'n ymddangos yn gryf. Adferwyd twf GDP rhywfaint yn Ch2 2018, ond mae'r gyfradd twf flynyddol o 1.2% yn parhau'n llawer is na'r cyfartaledd hirdymor.

| | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Ca | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |

Y farn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolygon heriol wrth i'r llywodraeth leiafrifol barhau i drafod gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gweithredoedd y banc canolog a risgiau geo-wleidyddol, megis rhyfeloedd masnach posib, wedi golygu amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bond, a byddant yn parhau i wneud hynny.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 16 TACHWEDD 2018** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 17 Medi 2018 hyd 16 Tachwedd 2018.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 16 Tachwedd 2018:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 16 Tachwedd 2018, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rhyngwynebau gyda'r Cyfriflyfr Ariannol | Cyllid | Cyfrifeg | Uchel | Atodiad 1 |
| Treth Cyngor – Ad-daliadau | Cyllid | Refeniw | Uchel | Atodiad 2 |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Economi a Chymuned | Hamdden | Digonol | Atodiad 3 |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | Econnomi a Chymuned | Hamdden | Digonol | Atodiad 4 |
| Canolfan Hamdden Penllyn | Economi a Chymuned | Hamdden | Digonol | Atodiad 5 |
| Glynllifon - Incwm | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Digonol | Atodiad 6 |
| Grant Cefnogi Pobl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cefnogi Pobl | Uchel | Atodiad 7 |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Tai Sector Breifat | Uchel | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2017/18, daethpwyd i gytundeb ar 163 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2019. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 17 Tachwedd 2018 bod gweithrediad derbyniol ar **58.28%** o'r camau cytunedig, h.y. 95 allan o 163.

## 4. GWAITH AR Y GWEILL

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 16 Tachwedd 2018:

- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol *(Cofforaethol)*
- Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Cenedlaethol *(Corfforaethol)*
- Statws Cyflogaeth IR35 *(Addysg)*
- Prosiect TRAC *(Addysg)*
- GwE – Statws Cyflogaeth IR35 *(Addysg)*
- Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol *(Addysg)*
- Ysgolion – Cyffredinol *(Addysg)*
- Cynnal a Chadw Eiddo *(Amgylchedd)*
- Trafnidiaeth Cyhoeddus *(Amgylchedd)*
- Systemau – Rheolaeth "Patch" *(Cyllid)*
- Cyfraniadau gan Gyflogwyr *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Diogelwch Seiber *(Cyllid)*
- Cronfa'r Degwm *(Economi a Chymuned)*
- Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*

- Cynllun Troi Tai’n Gartrefi *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Plant – Lleoliadau All-Sirol *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Tanciau Disel a Rheoli Disel *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rheoli Llifogydd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 17 Medi 2018 hyd at 16 Tachwedd 2018, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi’r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi’u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**RHYNGWYNEBAU GYDA'R CYFRIFLYFR ARIANNOL**

**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan y Cyngor sawl system ar gyfer gwasanaethau unigol sydd yn cael eu bwydo i mewn i'r prif gyfriflyfr trwy ryngwynebau yn ddyddiol. Mae systemau credydwyr a dyledwyr yn integredig â'r cyfriflyfr, gyda'r systemau eraill yn cael eu bwydo trwy ryngwynebau. Caiff y data ei drosglwyddo yn awtomatig, gyda rhai yn dibynnu ar ymyriad â llaw drwy lwytho ar serfiwr dros dro neu greu cofnod trwy siwrneli. Caiff yr adroddiadau eu cynhyrchu o'r systemau gwasanaethau unigol ac yna cânt eu bwydo yn uniongyrchol unai i'r cyfriflyfr neu i is-gyfriflyfrau'r system credydwyr a dyledwyr. Unwaith mae'r data wedi cael ei dderbyn a'i bostio i'r cyfriflyfr, cyfrifoldeb y gwasanaethau yw sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyflawn trwy gynnal cysoniadau yn ôl i systemau'r gwasanaeth.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rhyngwynebau systemau i brif gyfriflyfr ariannol y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio gweithdrefnau a rheolaethau'r rhyngwynebau sydd mewn lle, gan gynnwys gwirio sampl o systemau sydd yn bwydo i'r cyfriflyfr i sicrhau eu cywirdeb o ran prosesu a chysoni data. Detholwyd sampl o ryngwynebau drwy'r system Cyflogau, AIM - derbyniadau arian, Capita Treth Cyngor a Threthi Annomestig ("Academy") a throsglwyddiadau i'r is-gyfriflyfrau i'r prif gyfriflyfr.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd bod trefniadau cryf mewn lle ar gyfer sicrhau fod trafodion o'r systemau a adolygwyd yn bwydo i mewn i'r prif gyfriflyfr mewn modd cyflawn a chywir.

4.1.1 Gwelwyd bod rheolaethau prosesu mewn lle ar gyfer y wybodaeth a fewnbynnir i'r systemau bwydo, a gwelwyd mai'r Rheolwr Systemau neu'r Technegydd sydd yn derbyn ac awdurdodi'r data a gaiff ei gyflwyno. Yn ychwanegol, gwelwyd bod y broses wedi'i dogfennu.

4.1.2 O'r sampl o ryngwynebau a wiriwyd, dengys bod y cyfansymiau yn cael eu cysoni yn rheolaidd. Cynhyrchiwyd cyfansymiau rheoli yn annibynnol o'i gilydd, ac yna cawsant eu defnyddio i wirio a chysoni. Nodwyd o'r sampl a wiriwyd bod swyddog dirprwyol yn gallu ymgymryd â'r dasg o gysoni'r ffigyrau yn absenoldeb y swyddog cyfrifol.

4.1.3 Gwelwyd bod rheolaethau mewn lle o fewn y systemau annibynnol ar gyfer adnabod ac atal data dyblyg gael ei drosglwyddo.

4.1.4 Gallai'r rhyngwynebau i'r cyfriflyfr adnabod ac atal codau annilys rhag cael eu gweithredu arno cyn eu trosglwyddo i'r brif system. Nodwyd bod unrhyw godau annilys a lwythir i'r system unai'n cael eu cywiro neu eu rhoi mewn cyfrif dros dro.

Atodiad 2

**AD-DALIADAU TRETH CYNGOR**
**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 O fewn y flwyddyn ariannol 2017/18, casglodd y Cyngor oddeutu £67miliwn o refeniw treth cyngor a gwnaethpwyd oddeutu £2 filiwn o ad-daliadau drwy gydol y flwyddyn sydd yn gyfatebol â 3,400 o drafodion ad-daliadau.

1.2 Gall y gwasanaeth brosesu ad-daliad i unrhyw gyfrif ble mae credyd ar y cyfrif o ganlyniad i ordaliad gan y trethdalwr. Mae modd i'r trethdalwr wneud cais am ad-daliad treth cyngor neu mae'r system yn gweithredu ar hyn yn awtomatig ble caniateir h.y. pan mae cyfrif yn cael ei gau, er mwyn glirio allan y credyd. Mae trethdalwyr yn derbyn taliadau ad-daliadau drwy siec gyda'r opsiwn o wneud cais i dderbyn y taliad drwy BACS sydd yn cael ei brosesu drwy'r Uned Taliadau yn seiliedig ar gyflwyno ffurflen cyfarwyddyd talu TR27b.

1.3 Yn ddiweddar adroddwyd yn y newyddion achos o dwyll mewn awdurdod yn Ne Cymru. Gweithredodd un o'r staff ar geisiadau ffug i godi ad-daliadau annilys a dargyfeiriwyd yr arian i'w chyfrifon banc personol. Adroddwyd bod dros £48,000 o arian wedi cael ei ddwyn. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, mae lleihad yn y dulliau traddodiadol o gynnal gwiriadau trylwyr. Mae hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd o reolaethau cyd-adfer i atal twyll.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweithredu ad-daliadau Treth Cyngor. Yn ystod yr archwiliad, archwiliwyd sampl o ad-daliadau a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle a'u bod wedi cael eu dilyn a bod trywydd archwilio yn bodoli.

Mynegodd y Rheolwr Systemau Refeniw bod bwriad sefydlu trefn newydd o dalu ad-daliadau fel mai'r opsiwn cyntaf fydd taliad drwy BACS gyda'r bwriad o leihau taliadau drwy siec. Bwriad hyn fydd i ostwng costau prosesu sieciau. Felly, mae'r archwiliad wedi cynnwys gwirio rheolaethau ar gyfer lliniaru unrhyw risg o dwyll a all godi yn sgil y newidiadau yma.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn (mae'r farn yn eithrio'r drefn arfaethedig o brosesu ad-daliadau drwy BACS yn uniongyrchol o system Academy gan nad yw'r trefniant yn weithredol ar hyn o bryd ac nid oes sicrwydd hyd yma pa reolaethau/adroddiadau eithriad y gellir eu cynhyrchu i liniaru risgiau):

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth weithredu ar ad-daliadau Treth Cyngor. Detholwyd ar hap sampl o 65 o ad-daliadau oedd yn cynnwys 15 o drosglwyddiadau rhwng biliau a 20 o ad-daliadau a wnaethpwyd yn benodol drwy BACS ar gyfer 2018/19 i sicrhau bod gweithrediadau ad-daliadau treth cyngor wedi cael eu cynnal mewn modd priodol.

4.1.1 O'r sampl o ad-daliadau a wiriwyd, ymddengys bod pob un yn ddilys gyda thystiolaeth/rheswm ar eu cyfer i'w cefnogi.

4.1.2 Gwiriwyd sampl o drosglwyddiadau o fewn cyfrifon/ o fil i fil a gwelwyd fod bob un wedi ei drosglwyddo yn gywir ac yn cytuno gyda'r credyd o'r bil blaenorol. Ni welwyd achos o daliadau yn cael eu trosglwyddo rhwng systemau.

4.1.3 Adolygwyd y drefn cymeradwyo ad-daliadau a cadarnhaodd y Rheolwr System Refeniw bod swyddogion penodol yn cynnal gwiriadau cyn i'r swp ad-daliadau gael eu rhyddhau i'w talu. Gwelwyd bod rheolaethau gwahaniaethau mewn dyletswyddau yn bodoli o fewn y system ar gyfer y broses o weithredu ac awdurdodi'r ad-daliadau.

4.1.4 Mae cysoniadau o'r taliadau yn cael eu cynnal a phrofwyd bod y system yn cyd-fynd â'r hyn a dalwyd allan.

4.1.5 O dan y trefniadau newydd i dalu ad-daliadau drwy BACS yn gyntaf, darganfuwyd bod y risg o dwyll yn codi wedi cynyddu. Mae'r ad-daliadau BACS yn cael eu hawdurdodi ac yn cael eu talu yn uniongyrchol o'r system, heb unrhyw drefniadau gwirio ychwanegol wedi'u sefydlu megis gwirio sawl ad-daliad sydd yn cael eu gwneud i'r un cyfrif banc. Felly cytunwyd gyda'r Rheolwr Trethi a Rheolwr Systemau Refeniw bod y gwasanaeth yn medru ymchwilio i mewn i gynhyrchu adroddiadau pwrpasol ar gyfer cynnal y gwiriadau hyn neu y posibilrwydd o sefydlu rheolaethau cydadfer.

**5. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ymchwilio i mewn i'r posibilrwydd o gynhyrchu adroddiad gyda'r holl daliadau ad-daliadau drwy BACS yn cynnwys manylion y talai, y dyddiad talu, swm a manylion y cyfrif banc a delir yr ad-daliadau i mewn iddynt.**

# CANOLFAN HAMDDEN PLAS FFRANCON
# ECONOMI A CHYMUNED

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Plas Ffrancon yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r ganolfan i gynnal archwiliad er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risigiau'r archwiliad fel y ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol boddhaol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon, gyda'r angen i dynhau ar rai agweddau. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Cysonwyd sampl o daflenni TR34 a TR34cc yn ystod yr ymweliad. Roedd ymdriniaeth incwm yn gywir ar y cyfan ond gwelwyd bod gwarged/diffyg mewn sawl achos wedi ei roi yn erbyn codau gwahanol i 'J'. Mae ceisio darganfod rheswm dros warged/diffyg yn ymarfer da ond dylid gwneud defnydd o'r cyfrif 'J' os nad oes eglurhad cadarn dros warged/diffyg.

5.1.2 Ar Awst 20, 2018, gwelwyd bod yr amser ddangosai'r system TCC (CCTV) 8 munud ar ôl y gwir amser. Nododd y Rheolwr ar Ddyletswydd bod y gwahaniaeth wedi bod yn fwy ar adegau a nad oedd staff yn ymwybodol o sut i ail-osod amser a dyddiad y system. Mae gan pob Rheolwr ar Ddyletswydd fynediad at y system TCC. Mynegwyd yn ystod yr ymweliad nad oedd hyfforddiant ar y system TCC wedi ei roi i reolwyr y Ganolfan. Mynegwyd pryderon hefyd nad oedd unrhyw gwmni yn gyfrifol am gynnal a chadw'r system mwyach oherwydd bod y cytundeb blaenorol wedi dod i ben.

5.1.3 Mae'r Ganolfan wedi mabwysiadu system '*Legend*'. Mae'r system yn ddatrysiad digidol i gofnodi llawer o brofion/tasgau a gwblheir yn y Ganolfan yn ddyddiol/wythnosol/misol. Mynegodd y Rheolwr ar Ddyletswydd bod trafferthion gyda'r broses uwch-lwytho i'r system yn arwain at ddata yn cael ei golli. Golygai hyn, er bod y Rheolwr ar Ddyletswydd yn hyderus eu bod wedi eu cwblhau, nad oedd cofnod o gwblhau profion tân a legionella ers sawl wythnos.

5.1.4 Cedwir cofnodion stoc y Ganolfan ar daenlenni Excel. Derbyniwyd cofnodion stoc diodydd ar gyfer Mehefin a Gorffennaf 2018. Derbyniwyd cofnodion stoc deunyddiau glanhau ar gyfer mis Gorffennaf 2018. Ar ddiwrnod yr ymweliad, gwelwyd bod lefelau stoc yn rhesymol ac nad oedd risg o golled incwm oherwydd diffyg. Roedd y ddogfennaeth gwirio stoc, ar y llaw arall, yn broblemus. Roedd cofnodion Mehefin yn dangos bod 0 potel '*Brecon dŵr'* mewn stoc, wedi eu prynu na eu ei gwerthu drwy'r mis. Gwelwyd poteli dŵr yn y storfa. Roedd colofn '*total stock @ end of the month*' wedi ei lenwi fel 0 ar gyfer pob eitem ym mis Mehefin. Ym mis Gorffennaf, roedd pob blwch yn 0. Mae'n debygol felly na gynhaliwyd gwiriad stoc trwy fis Gorffennaf a chychwyn Awst.

Roedd y niferoedd o eitemau a welwyd yn y storfa deunyddiau glanhau yn wahanol i'r hyn a welwyd ar y daenlen gwirio stoc mewn rhai achosion. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o rifau negatif yn y golofn stoc '*remaining*' ar gyfer rhai eitemau. Mae hyn o bosib yn deillio o wallau yn y fformiwlâu yn y daenlen.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Rheolwr ar Ddyletswydd a'r Rheolwr Ardal wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Defnyddio'r côd J ar ffurflenni TR34 a TR34cc ble bod angen.**
- **Cysylltu gyda swyddog neu gwmni priodol i drefnu gwaith cynnal a chadw i'r system TCC (CCTV) yn ogystal â hyfforddiant ar y system i Reolwyr y Ganolfan.**
- **Gwasanaeth Byw'n Iach i brofi'r system 'Legend' a chyflwyno system o adrodd ar unrhyw drafferthion sydd yn codi i'r Rheolwr Ardal.**
- **Sicrhau bod gwiriadau stoc yn cael eu cwblhau yn rheolaidd, bod y gwiriadau yn cynnwys y cynnyrch perthnasol a bod y taenlenni ddefnyddir yn cynnwys fformiwlâu addas.**

# CANOLFAN HAMDDEN GLASLYN
# ECONOMI A CHYMUNED

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Glaslyn yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys pwll nofio, ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhawyd fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y canolfannau hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 canolfan hamdden yng Ngwynedd i'w harchwilio er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 2 |
| ISEL | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, ond bod angen tynhau ar rai agweddau, manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Nid yw cofnodion stoc y ganolfan yn cytuno gyda'r niferoedd a gyfrifwyd ar ddiwrnod yr ymweliad. Detholwyd sampl o 8 eitem yn y storfa gan wirio fod y niferoedd yn cytuno gyda'r cofnodion stoc. Nid oedd y niferoedd yn gywir ar gyfer unrhyw un o'r eitemau. Ar gyfer un eitem, cadarnhaodd y cofnodion fod stoc agoriadol mis Gorffennaf yn 21, gyda stoc agoriadol mis Awst yn 8. Fodd bynnag, ni werthwyd unrhyw stoc yn y cyfnod yma. Cadarnhaodd y Derbynnydd ei bod yn cynnal gwiriadau stoc ar y cyntaf o bob mis, ac nad oedd gwerthiannau mis Awst wedi eu cofnodi eto, sydd yn egluro'r gwahaniaeth yn y niferoedd.

Cofiodd bod problem wedi bod gyda'r til mis Gorffennaf, a allai olygu na chafodd unrhyw werthiannau am y cyfnod eu prosesu tan fis Awst, ac mai dyma pam na gofnodwyd unrhyw werthiant am y cyfnod. Yn dilyn yr ymweliad gofynnodd y Rheolwr Ardal i'r Derbynnydd gadw cofnod manylach o'r stoc o hyn ymlaen.

5.1.2 Ni welwyd fod unrhyw wiriadau yn cael eu cynnal ar lefelau stoc cemegau. Cadarnhaodd yr Is-Reolwr Ardal yn ystod yr ymweliad ei fod yn siŵr fod y rhain yn cael eu cynnal, ond ni ellid dod o hyd i'r cofnodion ar yr adeg. Yn dilyn yr ymweliad derbyniwyd cadarnhad nad oedd gwiriadau yn cael eu cynnal.

5.1.3 Nid yw'r system CCTV wedi ei gosod ar yr amser cywir. Gwiriwyd y system am 9:15 ar fore dydd Mawrth, Awst 21. Fodd bynnag, er bod y dyddiad yn cytuno, roedd y system yn cadarnhau'r amser fel 9:47. Cadarnhaodd yr Is-Reolwr Ardal yn dilyn yr ymweliad fod yr amser wedi ei gywiro erbyn hyn.

5.1.4 Nid yw adolygiadau cynlluniau gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP) yn cael eu dyddio. Gwelwyd fod yr Is-Reolwr Ardal wedi llofnodi iddo adolygu'r cynlluniau, ond nid oedd y dyddiad wedi cael ei gadarnhau, yn ei wneud yn anodd gwybod pryd fe'u hadolygwyd ddiwethaf. Cytunodd i wneud hyn yn y dyfodol.

5.1.5 Ymwelwyd â'r ystafelloedd ffitrwydd a phwysau yn ystod yr ymweliad. Gwelwyd fod bysellbad ar y drysau, gyda'r côd yn cael ei rannu gyda chwsmeriaid sydd wedi talu am ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae côd y bysellbad yn cael ei newid yn wythnosol. Fodd bynnag, gellid cael mynediad i'r ystafelloedd drwy'r drysau ochr nad oedd ar glo. Cadarnhaodd yr Is-Reolwr Ardal fod y rhain yn aml yn cael eu hagor gan gwsmeriaid. Ble gellid cloi'r drws o'r tu allan gydag allwedd, nid oes angen allwedd i'w agor o'r tu mewn. Mae staff wedi eu cyfarwyddo i wirio fod y drysau ar glo, serch hynny, roeddynt ar agor yn ystod yr ymweliad. Yn dilyn yr ymweliad, derbyniwyd cadarnhad gan yr Is-Reolwr Ardal ei fod unwaith eto wedi atgoffa staff i gynnal gwiriadau aml o'r drysau.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Rheolwr Ardal a'r Is-Reolwr Ardal wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod y cofnodion stoc yn fanwl ac yn gywir ar bob achlysur, gydag unrhyw anghysondebau yn cael eu harchwilio.**
- **Trefnu fod gwiriadau misol yn cael eu cynnal ar lefelau stoc cemegau.**
- **Bod gwiriadau aml yn cael eu gwneud i sicrhau fod y drysau ar glo.**
- **Sicrhau fod y system CCTV yn cael ei gosod ar yr amser cywir.**

Atodiad 5

**CANOLFAN HAMDDEN PENLLYN**
**ECONOMI A CHYMUNED**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn ran o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth Cwmni Hamdden Gwynedd. Mae Canolfan Hamdden Penllyn yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys pwll nofio, ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r canolfan i gynnal archwiliad er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd fod trefniadau'r Canolfan yn gadarn ar y cyfan gyda gwaith gweinyddol yn cael ei gwblhau'n gywir. Roedd tasgau dyddiol yn cael eu cwblhau'n gyson ac amserol ac yn cael eu cofnodi a gweinyddu'n effeithlon.

5.1.1 Roedd rheolaeth stoc ar gyfer bwydydd a nwyddau ond nid ar gyfer cemegion COSHH[1]. Er fod y tystysgrifau cywir yn bodoli ac yn cael eu harddangos yn y mannau a gedwir y cemegau, nid oedd gan y staff unrhyw drefn o gofnodi lefelau stoc o unrhyw gemegyn/sylwedd. Mae'r IMS[2] yn nodi yn rhan HS-09-3.1 o'r angen i gofnodi stoc unrhyw gemegion COSHH.

5.1.2 Gwelwyd nad oedd yr yrstafell a oedd yn cadw'r deunyddiau a chemegion glanhau cyffredinol ar glo yn ystod yr ymweliad. Ar yr achlysur yma roedd aelod o staff yn glanhau yr ystafell ffitrwydd a oedd gyferbyn â'r ystafell yma.

5.1.3 Gwelwyd fod defnydd cyson o'r tabled Legend ar gyfer gwiriadau dyddiol yn ogystal a gwiriadau yn ymwneud a Iechyd a Diogelwch. Yn ychwanegol gwelwyd fod y Ganolfan yn parhau i gofnodi gwiriadau ar bapur hefyd. Gall hyn fod yn ddyblygu gwaith yn ddi-angen.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Is Reolwr Ardal wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod cofnod o reoli stoc ar gyfer deunyddiau glanhau a chemegion COSHH.**
- **Sicrhau fod pob ystafell sy'n cadw cemegion wedi cloi ar pob achlysur.**

[1] Control of Substances Hazardous to Health
[2] Integrated Management System (System rheoli gyffredinol ar gyfer y Canolfannau Hamdden)

Atodiad 6

**INCWM PARC GLYNLLIFON**
**ECONOMI A CHYMUNED**

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn archwiliad cynlluniedig ar gasglu incwm o fewn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig, ar gais y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ymchwiliwyd i'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer casglu ffioedd mynediad ymwelwyr â Pharc Glynllifon. Y drefn bresennol yw bod tenant y Siop ger mynediad y Parc yn casglu ffioedd gan ymwelwyr ac yna yn trosglwyddo'r arian a gasglwyd (llai comisiwn o 15% + TAW) yn uniongyrchol i'r Cyngor gan anfon y wybodaeth gefnogol i'r Gwasanaeth. Oherwydd diffyg adnoddau, nid yw'r Gwasanaeth yn gwirio'r nifer o ymwelwyr ac nid oes tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth a gyflwynir gan y Siop ond mae'r Gwasanaeth yn ffyddiog fod y ffigyrau yn ddibynadwy a bod y drefn yn rhoi gwerth am arian i'r Cyngor.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Yn sgil y ffaith nad oes gwiriadau o niferoedd ymwelwyr Parc Glynllifon na'r incwm mynediad a gesglir, bwriad yr archwiliad oedd edrych ar y trefniadau, yr incwm a gasglwyd ers 2009 a chymharu trefniadau casglu ffioedd mynediad hanesyddol gyda'r presennol. Gwnaed hyn drwy edrych ar y cyfriflyfr ariannol a strwythurau staffio cyfredol a blaenorol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Dengys y matrics isod nifer y risgiau a adnabuwyd â'r sgôr risg cyfatebol. Dylid cyfeirio at y ddogfen atodol am ddisgrifiad llawn o ddiffiniadau tebygolrwydd ac effaith. Yn seiliedig ar y matrics risg y darparwyd lefel sicrwydd yr archwiliad.

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r incwm a gasglwyd yn eithaf cyson (oddeutu £14,000 yn flynyddol) ers cychwyn y trefniant gyda'r Siop yn 2014, ond yn sgil newidiadau strwythurol a chyfrifoldebau staffio yn y Parc, yna nid oedd modd gwneud cymhariaeth deg ar berfformiad ariannol casglu incwm mynediad y trefniadau presennol gyda'r hyn cyn 2014.

5.1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Glynllifon gan y Pwyllgor Craffu Datblygu er mwyn ystyried dewisiadau ar gyfer rheolaeth y Parc. Rhoddwyd pecyn at ei gilydd yn cynnwys y Siop a'r Caffi a gwahoddwyd tendrau am y brydles. Yn dilyn gosod y brydles, yn anffodus nid oedd y trefniant yn llwyddiant a ni dderbyniwyd incwm mynediad yn y flwyddyn ariannol 2012-13 na 2013-14. O ganlyniad, ildiodd y tenant y cyfrifoldeb am y Siop a creuwyd prydles ar wahân am y Caffi a'r Siop ac aethpwyd drwy'r broses tendro yn 2014. Enillwyd y tendr gan y cwmni presennol ag arwyddwyd prydles am gyfnod o 3 mlynedd yn Awst 2014.

5.1.2 Nid yw'r brydles wedi ei adnewyddu ond mae'r tenant yn parhau i redeg y Siop. Yn unol â'r brydles mae'r tenant wedi talu rhent blynyddol o £2,500 i'r Cyngor. Eglurwyd fod y Gwasanaeth Eiddo yn gweithredu ar y broses er mwyn adnewyddu'r brydles ac adolygu'r rhent.

5.1.3 Mae'r brydles yn nodi fod y tenant yn gyfrifol am werthu tocynnau dyddiol a blynyddol ar gyfer mynediad i'r Parc yn ystod oriau agor y siop yn unol â chyfarwyddyd y perchennog. Nodir hefyd fod y tenant yn gyfrifol am gadw cofnod manwl o'r arian a dderbynnir er mwyn ei drosglwyddo i'r Perchennog. Gwelwyd fod taflenni yn y Siop yn hyrwyddo'r cerdyn aelodaeth flynyddol a bod hysbysfwrdd tu ôl i'r cownter yn arddangos yr holl ffioedd mynediad yn glir.

5.1.4 Caiff incwm ei drosglwyddo i'r Cyngor 3 neu 4 gwaith y flwyddyn gyda 'nodyn talu' wedi ei ddarparu i'r Gwasanaeth ar gyfer pob trosglwyddiad. Gwelwyd enghreifftiau o daflenni 'nodyn talu' gan y siop a oedd yn nodi incwm a dderbyniwyd am swm na fuasai'n bosib o fewn y rhestr brisio. Awgryma hyn fod y symiau yn anghywir neu fod arian ychwanegol e.e. arian mân yn cael ei adael/derbyn gan rai cwsmeriaid. Ymrwymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i holi'r lesddaliwr er mwyn ymchwilio'r anomaledd yma.

5.1.5 Yn 2009 a cyn yr ail strwythuro i adnabod arbedion, roedd y Cyngor yn cyflogi rheolwr, is-reolwr a 2 warden o fewn y Parc. Erbyn hyn cyflogir dau aelod o staff am 4 diwrnod sef Rheolwr Cynorthwyol a Warden Cynorthwyol/Gweithiwr Stâd. Amlygir hyn yng nghostau staffio a phenderfyniadau megis diddymu Swydd 'Rheolwr y Parc' yng Ngorffennaf 2011 a swyddi 'Cymhorthydd Parciau'. O ganlyniad gwelwyd gostyngiad mewn costau staffio o £110,288 yn 2009 o gymharu â £50,765 yn 2017. Yn sgil y newidiadau, nid oes adnoddau digonol o ran cyfleusterau nac amser gan y gweithwyr er mwyn casglu tâl mynediad a monitro'r ymwelwyr.

5.1.6 Mae'r ffaith fod y siop yn agored 7 diwrnod yr wythnos yn galluogi i incwm gael ei gasglu pob dydd o'r wythnos heb unrhyw gostau staffio ychwanegol i'r Cyngor. Er bod y Cyngor yn ildio canran o'r ffioedd fel comisiwn, mae'r opsiwn yma yn rhoi gwell gwerth am arian oherwydd buasai trefniadau amgen yn arwain at fwy o gostau staffio i'r Cyngor fydd yn uchafu unrhyw gynnydd mewn incwm. Mae risg ynghlwm a'r ffaith nad oes tystiolaeth yn cael ei gyflwyno gyda'r taliadau a wneir i'r Cyngor, ond mae pryder gall ceisio gorfodi'r lesddaliwr i gyflwyno tystiolaeth drylwyr effeithio'n negyddol ar berthynas sydd eisoes yn seiliedig ar ymddiried ac mae risg y byddai'n anfodlon cydweithio â'r Cyngor i'r un parodrwydd.

5.1.7 Barn y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yw y dylai'r Cyngor ymfalchïo fod unrhyw incwm yn cael ei dderbyn yn enwedig yn yr amgylchiadau presennol o ran staffio a chyllideb, a bod y risg yma yn dderbyniol wrth ystyried gwerth cymharol isel yr incwm, a'r costau fydd ynghlwm â threfniadau amgen.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Trafod â'r lesddaliwr er mwyn cael taflen yn nodi'n fanylach pa gategori o ymwelwyr/taliadau a'r niferoedd sydd wedi ei dderbyn.**

Atodiad 7

**GRANT CEFNOGI POBL**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

## 1. Cefndir

1.1 Dyrannwyd dros £5 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2017-18 fel rhan o gynllun Cefnogi Pobl. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer 2017-18, drwy wirio'r costau a hawliwyd â'r nifer o achosion adroddwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant, ymarfer da a rheoliadau gweithdrefn ariannol y Cyngor.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn ystod 2017-18 roedd rhaglen Cefnogi Pobl wedi tanwario £52k yn erbyn cyfanswm y grant a ddyrannwyd. Cedwir y cyllid dros ben mewn cronfa benodol, ond dros y blynyddoedd, mae'r tanwariant hanesyddol wedi cronni, ac ar gais Llywodraeth Cymru mae'r Gwasanaeth wedi ariannu dros hanner miliwn o wariant Cefnogi Pobl 2017-18 drwy ddefnyddio'r tanwariant hanesyddol yma. Cysonwyd y gwariant gyda'r cyfriflyfr a dilynwyd sampl o gostau yn ôl i'w ffynonellau, gan gynnwys gwirio anfonebau a dalwyd i ddarparwyr allanol yn ogystal â siwrneli ble darparwyd y gwasanaeth gan Unedau eraill o fewn y Cyngor. Gwelwyd eu bod yn briodol a bod y manylion ariannol ar y dystysgrif archwilio wedi eu datgan yn gywir.

4.2 Mae amod 11 (a) (iii) o'r llythyr cynnig grant yn nodi bod angen cadw'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n gysylltiedig â'r cyllid hyd nes i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Cyngor ei fod yn iawn eu dinistrio. Fel rheol, caiff anfonebau eu dinistrio gan y Cyngor chwe mlynedd ar ôl y flwyddyn gyfredol ddod i ben. Ar gyfer anfonebau sydd angen cael eu cadw am gyfnod estynedig, oherwydd gofynion trywydd archwilio yn nhelerau'r grant er enghraifft, yna atodir slipiau codio gwariant ac awdurdodi TR252 pinc (yn hytrach na melyn).

Darganfuwyd fod y Gwasanaeth yn defnyddio slipiau melyn wrth dalu anfonebau sy'n creu risg o'r anfonebau yn cael eu dinistrio cyn i'r Cyngor dderbyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, cedwir holl anfonebau'r Cyngor am gyfnodau estynedig, felly isel yw'r risg yma, ond buasai'n ymarfer da i ddefnyddio slipiau pinc o hyn ymlaen.

4.3 Gwiriwyd y nifer o 'ddeilliannau' adroddwyd i Lywodraeth Cymru, ar gyfer y ddau gyfnod o fewn y flwyddyn. Bwriad hyn yw casglu gwybodaeth am y nifer a'r math o gefnogaeth a roddir. Mae'r darparwyr yn cyflwyno'r wybodaeth yma ar gyfer pob unigolyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel corff arweiniol Rhanbarth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru, sydd wedyn yn anfon adroddiad crynodeb o'r basdata i Gyngor Gwynedd i'w wirio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, derbynnir taenlen sy'n cynnwys holl fanylion pob unigolyn sy'n derbyn cymorth. Defnyddir y wybodaeth yma gan y Gwasanaeth er mwyn dethol sampl o ddeilliannau i wirio wrth gynnal ymweliadau monitro cyfnodol â'r darparwyr. Gwelwyd fod yr adroddiadau yma yn cysoni gyda'r hyn adroddir i Lywodraeth Cymru, a bod y Gwasanaeth yn eu dilysu wrth gynnal ymweliadau.

## 5. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Defnyddio slipiau codio ac awdurdodi anfonebau (TR252) pinc er mwyn sicrhau na chaiff anfonebau eu dinistrio yn gynamserol.**

Atodiad 8

**GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gael i bobl anabl er mwyn eu cynorthwyo yn ariannol gyda gwaith i ddarparu cyfleusterau a gwneud addasiadau i'w tai. Uchafswm y grant yng Nghymru yw £36,000 fesul cais, ond mewn achosion arbennig gellir caniatáu ychwanegu benthyciad dewisol, drwy gyfrwng Benthyciad Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl (BDCA).

1.2 Gellir gwneud cais am y grant drwy gyfeireb gan Therapydd Galwedigaethol yn unig, er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn gymwys ac yn cwrdd â gofynion yr unigolyn anabl. Caiff prawf modd ei gynnal ar gyfer bob ymgeisydd, sy'n seiliedig ar incwm a chyfalaf yr unigolyn er mwyn cyfrifo eu cyfraniad tuag at yr addasiadau.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer gweinyddu Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a chadarnhau bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol.

2.2 Gwnaed hyn drwy ddethol sampl o ymgeiswyr sydd wedi derbyn y grant er mwyn sicrhau bod ffurflenni cais ar gyfer bob unigolyn, eu bod yn gymwys ac wedi cael eu cyfeirio gan Therapydd Galwedigaethol, a bod cyfraniad ariannol yr unigolyn tuag at y gwaith yn cael ei gyfrifo'n gywir.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol.

4.1.1 Gwelwyd bod y Cyngor wedi cyhoeddi llyfryn 'Grant Cyfleusterau i'r Anabl' sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth safle eu hunain o fewn gwefan y Cyngor, sy'n cynnwys manylion am y grant. Ni fuasai hysbysebu ymhellach, megis ar gyfryngau cymdeithasol yn ychwanegu gwerth gan all fod yn gam-arweiniol ac arwain at nifer o geisiadau sydd ddim yn gymwys. Credir nad oes risg sylweddol o unigolion sy'n gymwys i'r cymorth yn methu allan gan fod gweithwyr meddygol yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ac yn hysbysebu cleientiaid cymwys.

4.1.2 O'r sampl o geisiadau a wiriwyd, ymddengys bod pob un yn gymwys i dderbyn y grant. Roedd yr holl ymgeiswyr wedi cyflwyno'r dogfennau priodol.

4.1.3 Gwelwyd bod o leiaf dau ddyfynbris yn cael ei dderbyn ar gyfer yr holl geisiadau, ac adroddiad tendr ar gyfer gwaith sylweddol. Gwiriwyd y dyfynbris buddiol yn erbyn gwir gost y gwaith ar gyfer yr holl geisiadau a gwelwyd ar adegau, bod swm gwir gost y gwaith yn fwy na'r dyfynbris a gafodd ei roi cyn cychwyn y gwaith, ond bod rheswm dilys dros hyn.

4.1.4 Mae'r drefn o fonitro gwerthiannau tai yn sicrhau fod grant sydd dros £5,000 yn destun pridiant tir lleol am 10 mlynedd. Gwiriwyd y sampl a ddetholwyd a gwelwyd bod y rheolaeth yma mewn lle.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2018/19 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 16 Tachwedd 2018 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 12 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 2 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 20 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 22 |
| **Cyfanswm** | **59** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2019. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 16 Tachwedd 2018 oedd **37.29%** - allan o'r **59** archwiliad unigol yng nghynllun 2018/19 roedd **22** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae yr ugain diwrnod oedd wedi eu dyrannu ar gyfer "Grantiau" yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn y cynllun gwrieddiol wedi eu neilltuo i ddau archwiliad unigol:

- Lleoliadau All-sirol – 12 diwrnod
- Grant Dechrau'n Deg – Gofal Plant – 8 diwrnod

3.2 Roedd deg diwrnod wedi eu dyrannu ar gyfer archwiliad "Rheolaeth Trwyddedu Meddalwedd", ond yn dilyn trafodaethau cychwynnol â'r Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cefnogol Technoleg Gwybodaeth, hysbyswyd Archwilio Mewnol y bydd system newydd ar gyfer rheoli trwyddedau meddalwedd yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2019. Felly, penderfynwyd trosglwyddo'r deg diwrnod ar gyfer cynnal archwiliad ar "Ddiogelwch Seiber".

3.3 Gwnaethpwyd cais gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2018 i waith ychwanegol gael ei gynnal ar drefniadau casglu incwm yng Nglynllifon. Mae chwe diwrnod wedi ei ddyrannau ar gyfer yr archwiliad "Glynllifon – Incwm".

3.4 Derbyniwyd cais gan y Rheolwr Uned Gyllid (Addysg) i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad o drefniadau prynu cyfarpar ar ran disgyblion. Mae cyfanswm 15 diwrnod wedi eu dyrannu ar gyfer cynnal yr adolygiad.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2018/19, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-09/2019 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.04** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-19/2019/001 | Trefniadau Diogelu - Trais yn y Cartref | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.34** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-19/2019/002 | Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **3.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2019 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.19** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-03/2019 | Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth | 0.00 | 25.00 | **25.00** | **10.22** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2019cy | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **0.15** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2019dp | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **21.96** | Adroddiad Drafft |
| AO-ARL-05/2019 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **9.73** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2019/gy | Grant Gwisg Ysgol | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **6.11** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2019GAD | Grant Datblygu Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.81** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2019GGA | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.70** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2019ol16 | Grant Addysg Ôl-16 | 3.00 | 0.00 | **3.00** | **0.45** | Wedi ei gynllunio |
| EADDA03/2019/001 | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **1.91** | Wedi ei gynllunio |
| EADDA03/2019/002 | Mynediad i Ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.24** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA04/2019/IR35 | Statws Cyflogaeth IR35 | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **10.81** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2019 | Prosiect TRAC | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.28** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2019/IR35 | GwE - Statws Cyflogaeth IR35 | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **15.46** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA32/2019 | Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **4.32** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA35/2019 | Ysgolion - Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **AMGYLCHEDD** | | | | | | |



**16/11/2018**

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2019dp | Difa Pla | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **3.31** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BB-YSG-11/2019 | Trefniadau Trwyddedu | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **5.04** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-02/2019 | Cynnal a Chadw Eiddo | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.68** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| DDAT-CC-01/2019 | Trafnidiaeth Cyhoeddus | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.46** | Disgwyl Adolygiad |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AW-TG-12/2019 | Systemau - Rheolaeth "Patch" | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **14.89** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2019 | Rhyngwynebau gyda'r Cyfriflyfr Ariannol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **20.03** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AP-PEN-07/2019 | Cyfraniadau gan Gyflogwyr | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **7.66** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2019kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **1.51** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2019 | System Treth Cyngor - One Digital Portal | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **0.54** | Wedi ei ganslo |
| AC-TR-01/Ad/2019 | Treth Cyngor - Ad-daliadau | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **12.31** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-07/2019 | Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.57** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2019 | Trethi Busnes - Rhestr Brisio | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **5.73** | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-05/2019 | Gwaredu Cyfarpar TG | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-06/2019/001 | Diogelwch Seiber | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **3.51** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-08/2019 | Trefniadau Adfer Trychineb TG | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.78** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-17/2019 | Rheolaeth Trwyddedu Meddalwedd | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **0.41** | Wedi ei ganslo |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2019 | Cronfa'r Degwm | 3.00 | 5.00 | **8.00** | **3.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Hamdden** | | | | | | |
| EHAMAC6401/2019 | Canolfan Hamdden Arfon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.50** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EHAMAC6406/2019 | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **9.97** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6421/2019 | Canolfan Hamdden Glaslyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.01** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6442/2019 | Canolfan Hamdden Penllyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **11.14** | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMT-01/2019 | Casglu Incwm - Traethau a Pharciau Gwledig | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.08** | Adroddiad Terfynol |
| EHAZ-01/2019/001 | Glynllifon - Incwm | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **6.49** | Adroddiad Terfynol |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| DDAT-AD-02/2019 | Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.20** | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-AD-05/2019 | Bwrdd Twf Gogledd Cymru | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-ARALW/2019 | Trefniadau ar Alwad a Brys | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **4.84** | Wedi ei gynllunio |
| GRH-GW01/2019ab | Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **4.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Busnes** | | | | | | |
| GRH-CD01/2019 | Trefniadau Comisiynu | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2019 | Grant Cefnogi Pobl | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.46** | Adroddiad Terfynol |
| **Gofal Cymunedol** | | | | | | |
| GDAPR-GC04/2019 | Gofal Cartref - Costau Teithio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.23** | Adroddiad Terfynol |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1341/2019 | Plas y Don | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.49** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1345/2019 | Plas Hedd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.58** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1350/2019 | Hafod Mawddach | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.14** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1356/2019 | Cefn Rodyn | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.27** | Adroddiad Terfynol |
| **Tai Sector Breifat** | | | | | | |
| T-TAI-G06/2019 | Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.61** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-G10/2019 | Cynllun Troi Tai'n Gartrefi | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.04** | Adroddiad Drafft |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2019/003 | Grant Dechrau'n Deg - Gofal Plant | 0.00 | 8.00 | **8.00** | **0.16** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GGWAS-PLANT3/2019 | Plant - Lleoliadau All-Sirol | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **0.24** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-PLANT8/2019 | Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014 | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2019 | Tanciau Disel a Rheoli Disel | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.43** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GORF/2019 | Gorfodaeth Stryd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.23** | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2019 | Rheoli Llifogydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **4.70** | Gwaith Maes ar y gweill |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **29 TACHWEDD 2018** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD YN ÔL O'R GWEITHDY A GYNHALIWYD AR 5 TACHWEDD 2018** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS A CHYTUNO CAMAU GWEITHREDU** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2018, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu drefnu gweithdy yn ystod hydref 2018 er mwyn cynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd.

1.2 Pwrpas y Gweithdy fyddai ystyried os yw'r Pwyllgor yn gweithredu yn y ffordd mwyaf effeithiol, a lle mae sgôp i wneud mwy.

1.3 Cynhaliwyd y Gweithdy yn Swyddfeydd y Cyngor yn Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth, ar 5 Tachwedd. Mynychodd saith o aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys y Cadeirydd. Roedd y Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio yn hwyluso.

## 2. CYNNWYS Y SESIWN

2.1 Defnyddiwyd cynnwys cyhoeddiad CIPFA, *Audit Committee – Practical Guidance for Local Authorities and Police* fel sail y gweithdy. Yn unol â Canllawiau Statudol Mesur 2011, a gyhoeddwyd yn 2012, mae disgwyl i bwyllgorau archwilio awdurdodau lleol yng Nghymru dalu sylw i'r cyhoeddiad yma. Mae'r Canllawiau Statudol yn cyfeirio at y fersiwn o ganllawiau CIFPFA oedd ar gael ar y pryd, sef fersiwn 2005, ond mae fersiwn ddiweddarach wedi ei gyhoeddi yn 2018.

2.2 Defnyddiwyd canllawiau CIPFA er mwyn ystyried:

- Os yw'n Pwyllgor yn gwneud y pethau y dylai, yn unol â'r gofynion statudol arno ac ymarfer gorau
- Pa mor effeithiol y mae'n gwneud y pethau hyn.

## 3. HUNANASESIAD O YMARFER DA

3.1 Defnyddiwyd Atodiad D yng Nghanllawiau CIPFA, sef Hunanasesiad o Ymarfer Da, er mwyn ystyried os yw'r Pwyllgor yn cyflawni'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddo o safbwynt gofynion statudol ac ymarfer gorau y cyrff proffesiynol. Roedd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio eisoes wedi rhoi sylw i'r cwestiynau hyn yn y cyfnod cyn y gweithdy, a cyflwynwyd y canlyniadau i'r gweithdy am drafodaeth.

3.2 Mae canlyniadau'r Hunanasesiad o Ymarfer Da i'w cael ar y tudalennau nesaf. Ar ôl adnabod unrhyw fylchau, lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn gwella cydymffurfiaeth.

**HUNANASESIAD O YMARFER DA**

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pwrpas a llywodraethu y Pwyllgor Archwilio** | | | | | |
| 1 | Oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio penodol? | ✓ | | | Mae Rhan 9.2.1 Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn datgan *"Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Archwilio i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn ac yn unol ag adrannau 81-87 y Mesur."* |
| 2 | Ydi'r Pwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor llawn? | ✓ | | | Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor Llawn ac mae'n bwyllgor llawn (h.y. nid yw'n Is-Bwyllgor).<br><br>Mae Cynllun Dirprwyo'r Cyngor (Rhan 13 o'r Cyfansoddiad) yn benodol yn dirprwyo'r ddyletswydd i gymeradwyo datganiad yr awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Nid yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn er y nodir y gofyniad yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Fodd bynnag, roedd yr aelodau'n gytûn y byddai unrhyw fater oedd angen sylw pellach yn cael eu hadrodd i'r Cyngor llawn ar sail eithriad. |
| 3 | A yw'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â datganiad sefyllfa CIPFA? | ✓ | | | Paragraff 1.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. |
| 4 | A yw rôl a pwrpas y Pwyllgor Archwilio wedi ei ddeall a'i dderbyn ar draws yr awdurdod? | ✓ | | | Nid oes unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | A yw'r Pwyllgor Archwilio yn darparu cefnogaeth i'r awdurdod wrth fodloni gofynion llywodraethu da? | ✓ | | | Mae Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn achlysurol.<br><br>Cyflwynir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn ei herio a'i gymeradwyo. |
| 6 | A yw'r trefniadau i ddal y Pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol? | | ✓ | | Nid oes trefniadau ffurfiol o'r fath wedi cael eu rhoi yn eu lle, ond mae'r Archwiliwr Allanol yn ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth gynnal yr asesiad o drefniadau llywodraethu'r awdurdod. |
| **Swyddogaethau'r Pwyllgor** | | | | | |
| 7 | A yw cylch gorchwyl y pwyllgor mynd i'r afael yn echblyg â'r holl feysydd craidd a nodwyd yn natganiad sefyllfa CIPFA? | | | | |
| | • llywodraethu da | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2 |
| | • fframwaith sicrwydd, gan gynnwys trefniadau partneriaeth a chydweithio | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2 |
| | • archwilio mewnol | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – paragraffau 2.2.5 – 2.2.9 a Rhan 2.3 |
| | • archwilio allanol | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.3 |
| | • adrodd ariannol | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – Rhannau 2.1 a 2.4 |
| | • rheolaeth risg | ✓ | | | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2. Roedd yr aelodau o'r farn bod angen adroddiad yn fwy aml. |
| | • gwerth am arian neu gwerth gorau | | | ✓ | |
| | • atal twyll a llygredigaeth. | | ✓ | | Cylch Gorchwyl – paragraffau 2.2.10 – 2.2.13. Fodd bynnag, nid oes adroddiadau penodol yn cael eu cyflwyno. |
| | • cefnogi'r fframwaith foesegol | | | ✓ | |
| 8 | A gynhelir gwerthusiad blynyddol i asesu p'un a yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac os rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'r holl feysydd craidd? | | ✓ | | Ni gynhelir gwerthusiad blynyddol, ond mae'r gweithdy yn gyfle i gynnal hunan-asesiad. |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | A yw'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y meysydd ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA a p'un a fyddai'n briodol i'r Pwyllgor ymgymryd â hwy?<br>Y meysydd yma yw:<br>• Bodloni gan ddatganiadau sicrwydd (e.e. Datganiad Llywodraethu)<br>• Goruchwylio, cefnogi a hyrwyddo archwilio mewnol<br>• Ystyried effeithiolrwydd y gyfundrefn rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth<br>• Effeithiolrwydd yr amgylchedd reoli (gwerth am arian, safonau a moeseg, atal twyll a llygredigaeth)<br>• Adroddiadau ac argymhellion archwilwyr ac arolygwyr a'u hoblygiadau<br>• Cynorthwyo cydberthnasau effeithiol<br>• Datganiadau ariannol. | | ✓ | | Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ymgymryd â rhai o'r meysydd hyn, e.e. adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi ystyried yn ffurfiol a ddylai ymgymryd â'r "meysydd ehangach".<br><br>Nid yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu trosolwg o'r adroddiad blynyddol ar hyn o bryd. |
| 10 | Lle canfuwyd fod y sylw a roddwyd i feysydd craidd yn gyfyngedig, oes cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn? | | ✓ | | Y meysydd craidd hynny lle mae'r sylw a roddir iddynt yn gyfyngedig yw gwerth am arian / gwerth gorau a gwaith twyll rhagweithiol.<br><br>Bydd adroddiad ar y gwaith a wnaethpwyd ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law |
| 11 | Ydi'r Pwyllgor wedi cadw at ei rôl o beidio cynghori drwy beidio ymgymryd ag unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau nad ydynt yn unol â'i bwrpas diben craidd? | ✓ | | | |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | | |
| 12 | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad pwyllgor archwilio effeithiol?<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br>• bod ar wahân o'r weithrediaeth<br>• cymysgedd addas o wybodaeth a sgiliau ymhlith yr aelodau<br>• maint pwyllgor nad yw'n anhylaw<br>• rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys o leiaf un aelod annibynnol (lle nad yw hyn eisoes yn fandadol). | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | | | Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd – Rhan 9.2<br><br>Mae gan y Pwyllgor 18 aelod ac un aelod lleyg. Mae'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cael ei sefydlu er mwyn delio â'r meysydd hynny lle byddai'r Pwyllgor llawn yn anhylaw.<br><br>Mandadol yng Nghymru – wedi ei weithredu. |
| 13 | Yw'r aelodau annibynnol sydd wedi eu penodi i'r Pwyllgor wedi'u recriwtio mewn ffordd agored a thryloyw a gymeradwywyd gan y cyngor llawn neu PCC a'r Prif Gwnstabl fel y bo'n briodol ar gyfer y sefydliad? | ✓ | | | Dilynwyd trefn briodol, gan gynnwys hysbysebu yn y wasg. |
| 14 | Ydi Cadeirydd y Pwyllgor yn meddu ar yr wybodaeth a sgiliau priodol? | ✓ | | | Trafodwyd hyn yn y Gweithdy o aelodau ar 5 Tachwedd 2018 heb y Cadeirydd yn bresennol. Roedd consensws ymysg yr aelodau fod gwybodaeth a sgiliau'r Cadeirydd yn briodol. |
| 15 | A oes trefniadau ar waith i gefnogi'r Pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | ✓ | | | Darparwyd hyfforddiant anwytho i aelodau ym Mehefin 2017. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar faterion Rheolaeth Trysorlys. |
| 16 | A yw aelodaeth y Pwyllgor wedi eu hasesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd ac wedi'i gael yn foddhaol? | | ✓ | | Nid oes unrhyw hunan asesiad o sgiliau a gwybodaeth aelodau wedi ei gynnal. |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Oes gan y Pwyllgor gysylltiadau gweithio da gyda phobl allweddol a sefydliadau, gan gynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r prif swyddog ariannol? | ✓ | | | Mae perthynas waith dda iawn gyda'r rhanddeiliaid allweddol hyn. |
| 18 | A ddarperir ysgrifenyddiaeth a chymorth gweinyddol digonol i'r Pwyllgor? | ✓ | | | Oes, yn unol â threfniadau'r Cyngor. |
| **Effeithiolrwydd y Pwyllgor** | | | | | |
| 19 | Ydi'r Pwyllgor wedi cael adborth ar ei berfformiad gan y rheini sy'n rhyngweithio gyda'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith? | | ✓ | | Mae'n derbyn adborth anffurfiol trwy waith archwilwyr allanol.<br><br>Roedd y Gweithdy ar 5 Tachwedd 2018 yn gyfle i swyddogion gyflwyno adborth. |
| 20 | Yw cyfarfodydd yn effeithiol gyda lefel dda o drafodaeth ac ymgysylltu gan yr holl Aelodau? | ✓ | | | Mae'r holl aelodau yn cyfrannu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor |
| 21 | Mae'r Pwyllgor yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys trafod darganfyddiadau'r archwiliad, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda swyddogion cyfrifol? | ✓ | | | Hyn yn digwydd yn y Pwyllgor llawn ac yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau |
| 22 | Yw'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella llywodraethu, risg a rheolaeth a'r rhain yn cael eu gweithredu? | ✓ | | | Wedi cyfeirio materion i bwyllgorau craffu lle roedd hynny'n briodol. |
| 23 | A yw'r Pwyllgor wedi gwerthuso os yw, a sut, y mae'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad? | | ✓ | | Wedi cynnal hunanasesiad ym Mai 2016 ac eto yn Nhachwedd 2018 |
| 24 | Oes gan y Pwyllgor gynllun gweithredu i wella unrhyw feysydd o wendid? | | ✓ | | I'w ystyried yn nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2018 |
| 25 | Yw'r Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i gyfrif am ei berfformiad ac egluro ei waith? | | ✓ | | Gweler cwestiwn 2 uchod |

**Materion sydd angen sylw**

3.3 Wrth ystyried canlyniadau'r Hunanasesiad o Ymarfer Da, nodwyd barn yr aelodau fod y bylchau canlynol angen sylw:

| Cwestiwn | Mater sydd angen sylw | Ffyrdd i ymateb |
|---|---|---|
| 2 | Nid yw'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Cyngor Llawn | **Ar ôl trafodaeth, roedd yr aelodau o'r farn y byddai adroddiad eithriad i'r Cyngor llawn yn weithrediad mwy priodol.** |
| | Diffyg adborth gan y swyddogaeth craffu yn diweddaru'r Pwyllgor am yr hyn maent wedi ei wneud gyda'r materion a gyfeiriwyd iddynt | **Mater i'r pwyllgorau craffu ydi penderfynu pa faterion y maent am eu hystyried, ond y disgwyliad ydi y byddai pob pwyllgor yn gytûn am faterion o risg uchel. Trafod gyda swyddogion sy'n cefnogi craffu er mwyn sicrhau fod materion yn cael sylw priodol yn y fforymau craffu, ac adolygu'r drefn o ymateb i adroddiadau archwilwyr allanol.** |
| | Gwybodaeth mwy manwl am waith dilyniant | **Bydd y Rheolwr Archwilio a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi sylw i hyn. Credir mai adrodd ar fethu gweithredu ar sail eithriad fyddai'r dull mwyaf effeithiol o weithredu.** |
| | Y Pwyllgor yn awyddus i dderbyn diweddariad gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) | **Yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg i drafod gyda'r swyddog perthnasol a'r pennaeth adran.** |
| | Dylid cyflwyno mwy adroddiadau i'r Pwyllgor am waith atal twyll ac atal llygredd | **Yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg i gyflwyno papur i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod yn Chwefror 2019.** |
| | Mae angen adroddiadau mwy rheolaidd gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu | **Bydd hyn yn digwydd o gyfarfod nesaf y Pwyllgor ymlaen. Yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg i weithredu.** |
| 6 | Dal y Pwyllgor i gyfrif – ddim yn derbyn adborth yn ffurfiol | **Bydd swyddogion Cyllid yn gofyn i'r archwiliwr allanol am sylwadau.** |
| | Angen adroddiad penodol am waith Gwerth am Arian / Gwerth Gorau | **Mae meddylfryd Ffordd Gwynedd yn chwarae rhan allweddol yn hyn. Y Pwyllgor i ofyn am ddiweddariadau yn ôl yr angen.** |
| | Cefnogi'r Fframwaith Foesegol | **Yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg i gyflwyno papur i'r Pwyllgor.** |
| 14 | Angen ystyried yr hyfforddiant a gynhigir i aelodau'r Pwyllgor. | **Bydd swyddogion Cyllid i gynnig awgrymiadau am bynciau hyfforddiant penodol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bydd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda unedau perthnasol o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.** |

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:**

- **Dderbyn cadarnhad gan yr aelodau hynny oedd yn y Gweithdy ar 5 Tachwedd fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r drafodaeth a gafwyd yno.**
- **Dderbyn cynnwys yr adroddiad yma fel sail i gynllun gweithredu ar gyfer datblygiad pellach y Pwyllgor, ac i benderfynu i dderbyn diweddariad i bob cyfarfod ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn.**